tafod elái

www.tafelai.com

Chwefror 2001 | Pris 25c | Rhif 154

Project Glyndwr

Dyna enw'r project sy'n mynd i sicrhau ysgol newydd i Rydfelen a Garth Olwg yn 2004. Mae arwyddocâd arbennig, wrth gwrs, yn yr enw!

Ar 10 Ionawr cynhaliwyd Diwrnod Agored Project Glyndŵr – roedd deugain o gwmnïau mawr wedi dod ynghyd i ddatgan diddordeb. Anhygoel! Fydd dim prinder ymgeiswyr am y gwaith!

Ar 2 Chwefror cynhelir cyfarfod cyhoeddus yng Nghanolfan Chwaraeon Llanilltud Faerdre (agor am 6.00, dechrau am 6.30) i ymgynghori â'r gymuned leol ynglŷn â chaniatad cynllunio. (Cyfarfodydd rhannu gwybodaeth am 2.30 a 6.30 ar 1 Chwefror a 2.30 ar 2 Chwefror.)

Mae tipyn o lythyru wedi bod yn y papurau lleol ynglŷn â lleoliad y project hwn ym Mhentre'r Eglwys. Pryderu mae pobl am effaith y datblygiad newydd ar y traffig lleol – sydd ar hyn o bryd yn ddigon enbyd, mae'n rhaid cyfaddef.

Pwysig iawn, felly, oedd y datganiad gan y Cynulliad Cenedlaethol yr wythnos ddiwethaf bod arian ar gyfer ffordd osgoi Pentref Eglwys wedi ei gytuno. Gyda'r broblem yma wedi ei dileu, efallai y gall y trigolion lleol yn awr edrych ymlaen at ddatblygiad a all ddod â bendithion mawr i'r ardal.

Cawn gyfle eto, mae'n siwr, i fanylu ar yr adnoddau fydd ar gael, ond yr elfen bwysicaf i'w phwysleisio yw mai Ysgolion Cymunedol fydd y Rhydfelen a'r Garth Olwg newydd, gyda llawer o'u hadnoddau ar gael i aelodau'r gymuned gyda'r pwyslais ar "addysg gydol oes". Bydd hyn yn cynnwys Canolfan Celfyddydau ac Adnoddau Technoleg Gwybodaeth yn ogystal ag adnoddau chwaraeon. Bydd mwy o fanylion am hyn ar gael yn y cyfarfodydd ar 1 a 2 Chwefror.

Agwedd arall hoffwn i bwysleisio, sef y cyswllt 'dynol' rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae'r project yn cynnig cyfle gwych i'r ysgolion "ymwneud" â'r bobl leol, a chreu "perthynas".

Perthyn yw'r gair, ac fel y mae Garth Olwg eisoes yn "perthyn" i'r gymuned, gobeithio y daw'r trigolion lleol yn fuan iawn i edrych ar y Rhydfelen newydd fel "ein hysgol ni", a bod yn falch ohoni.

Dewch yn llu i gefnogi'r ymgyrch ar 2 Chwefror!

D. Bryan James
Pennaeth Rhydfelen

Criw Clwb Carco Castellau gyda Llywodraethwyr yr Ysgol yn dathlu derbyn nawdd oddi wrth gwmni Pearl Assurance tuag at hyfforddiant a

Cystadleuaeth Farddoniaeth Iolo Morganwg Tudalen 10 i 15

Gweithredu Dros yr Iaith

Bu rhai yn ceisio beirniadu y Mentrau Iaith ar y cyfryngau yn dilyn Arolwg a gyflwynwyd i Fwrdd yr Iaith yn ddiweddar. Y prif gŵyn oedd fod yr iaith yn parhau i golli tir er gwaetha'r gwaith o hybu'r Gymraeg sy'n cael ei wneud gan y Mentrau.

Mae'n haws gan rai fwrw sen ar weithgarwch a brwdfrydedd pobl sy'n gweithredu dros yr iaith Gymraeg nag i sefyll lan a chefnogi y datblygiadau newydd sy'n digwydd drwy Gymru.

Mae'r Fenter Iaith yn yr ardal hon wedi chwarae rhan allweddol yn creu swyddi sy'n rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r iaith. Drwy weithredu mewn partneriaethau â nifer o gyrff eraill mae'r Fenter wedi rhoi statws newydd i'r iaith.

Hyderwn na fydd beirniaid y Mentrau yn llwyddo i atal y brwdfrydedd a'r gweithredu cyson sy'n cymeryd lle i sicrhau dyfodol yr iaith yn yr ardal hon.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
029 20811413
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 1af Mawrth 2001
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
21 Chwefror 2001

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê

http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT…

0845 6076070

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

CAERDYDD a'r Fro
Urdd 2001

Apêl Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2001

Dan y Wenallt

(yn Saesneg)

Yn Ysgol Creiglau

7pm Nos Fawrth
6 Chwefror

—

SIOE FFASIWN

Yn Neuadd y Pentref
Pentyrch
Nos Wener, 9 Mawrth

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a'r Cylch

Cinio Gŵyl Ddewi
Nos Wener, 2il Mawrth
Y Farthings, Bontfaen

Dewch yn Llu
Manylion
John Llewellyn Thomas 01443 218077
Bryn Roberts 01443 208211

CLWB Y BONT
Pontypridd

Nos Fercher, 7 Chwefror,
Sesiwn Jazz
Nos Sadwrn, Chwefror 10, Cwis
Nos Wener, Mawrth 2, Disgo,
Twmpath a Cawl Gwyl Ddewi
Nos Fercher, 7 Mawrth,
Sesiwn Jazz

Rygbi Rhyngwladol
ar y Sgrîn Fawr
3 Chwefror – Cymru v Lloegr
17 Chwefror – Alban v Cymru
3 Mawrth – Cymru v Iwerddon
17 Mawrth – Ffrainc v Cymru

CLWB Y DWRLYN

Noson o Hwyl
i'r Teulu

Nos Wener, 9 Chwefror
Yn Ysgol Creigiau

Cinio Gwyl Ddewi
Dydd Sul, 4 Mawrth
Yn Nhŷ'r Isha
Gwr gwadd:
Clive Rowlands

Manylion: 029 20890101

CWRS CYFRIFIADUROL

COLEG PONTYPRIDD a MENTER IAITH

yn dechrau
14 a 15 o Chwefror, 2001!
PROSESU GEIRIAU
BAS DATA - TAENLENNI

☎01443 226386
huwthomasdavies@menteriaith.net

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

Pêl-droed
Llongyfarchiadau mawr i Greg Bowler ar gael ei ddewis i gynrychioli Cymru o dan 18 oed ar gyfer tymor 2000/01. Cyn hir fe fydd yn cael y cyfle i chwarae yn erbyn Lloegr, Yr Alban, De a Gogledd Iwerddon. Mae wedi gweithio'n aruthrol o galed i ennill ei safle.

Rygbi
Mae pedwar disgybl o'r ysgol hefyd wedi eu dewis ar gyfer chwarae rygbi dros Gymru. Dewiswyd Gareth Knight a Johnathan Edwards i gynrychioli Cymru o dan 18. Dewiswyd Duane Goodfield i gynrychioli ysgolion Cymru o dan 16 a dewiswyd Huw Reeves i gynrychioli Ieuenctid Cymru o dan 18.

Mae'r uchod yn haeddu clod uchel ond hefyd mae tîm rygbi cyntaf yr ysgol yn cystadlu yng Nghynghrair Cyntaf Ysgolion Cymru a Rhydfelen yw'r unig ysgol yn ei grŵp gan mai colegau trydyddol yw'r gweddill. Er hynny, mae Rhydfelen wrthi'n gweithio'n galed ac y mae'n 4ydd ar hyn o bryd. Yn ogystal â hyn, maent yn yr 16 olaf yng nghystadleuaeth Cwpan Cymru.

Saethu
Nid ydym yn clywed llawer am chwaraeon lleiafrifol megis saethu, gan eithrio darlleniad o'r Olympics yn Sydney y llynedd. Ond mae gan Rhydfelen ddisgybl sy'n

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysylltir â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

Duane Goodfield

CIC a'r Urddaholics

CYMRU V DE'R AFFRIG
Aeth 25 o ddisgyblion blynyddoedd 12 & 13 ysgolion Cymer, Rhydfelen a Threorci ar drip CIC a'r Urddaholics i weld Cymru v De'r Affrig ar 26 Tachwedd. Roedd y sgor yn siomedig iawn gan bod Cymru wedi colli 13 - 23 mewn gêm dylswn wedi ennill. Er gwaetha'r canlyniad roedd pawb wedi mwynhau'r profiad o weld gêm ryngwladol yn Stadiwm y Mileniwm. Hoffwn ddiolch i Mr. John Rees am ei gydweithrediad a'i barodrwydd yn trefnu'r tocynnau.

Criw CIC yn Cefnogi Cymru

Merched CIC yn Alton Towers

GALA NOFIO CENEDLAETHOL YR URDD

Cynhaliwyd Gala Nofio Cenedlaethol Ysgolion Cynradd yr Urdd ym mhwll nofio Penlan, Abertawe ar Ddydd Sadwrn, 13eg o Ionawr. Daeth plant o bob rhanbarth yng Nghymru i gystadlu yn y rowndiau terfynol ar ôl iddynt ennill yn y cystadlaethau lleol. Yn y bore bu dros 350 o blant o flynyddoedd 3 a 4 yn cystadlu, ac yn y prynhawn bu dros 350 o blant blynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu.

Daeth Hannah Cooper o Ysgol Maesybryn, Llantrisant yn gyntaf yn y ras Cefn 50m i Ferched Bl 5 a 6 a daeth Thomas Robinson o Ysgol Maesybryn yn drydydd yn y ras Pili-Pala 25m i Fechgyn Bl 3 a 4.

Ymhlith dros fil o gefnogwyr cafwyd cefnogaeth brwd gan gannoedd o athrawon a rhieni. Bu aelodau o glybiau nofio lleol a Chymdeithas Nofio Amatur De Cymru yn cynorthwyo i sicrhau

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

DATHLU'R NADOLIG
Bu cymdeithasau a mudiadau'r Gilfach wrthi yn dathlu'r Nadolig yn ôl eu harfer, a chynhaliwyd llawer o giniawau a phartïon ac ati, Gwahoddwyd eglwysi ' r cwm i eglwys Moreia nos Sul Rhagfyr 17ed i Wasanaeth Carolau. Ar derfyn yr oedfa mwynhaodd pawb gwpanaid o de a 'mince pie'.
Ar Noswyl y Nadolig cynhaliwyd Gwasanaeth Plygain i groesawi'r Dydd Sanctaidd yng nghapel Calfaria. Daeth ffrindiau o Moreia a Bethlehem Tonyrefail i ymuno ac i gymeryd rhan yn yr oedfa.

BENDITHIO A DIOLCH
Roedd Nos Galan yn noson arbennig o hapus i ffyddloniaid Eglwys Sant Barnabas gan i Archddeacon Margam Y Gwir Barchedig Martin Williams a'r Deon Gwlad Y Parch Peter Coleman wedi eu cynorthwyo gan y Ficer y Parch Stephen Ambani gynnal Gwasanaeth o Ddiolch ac Adferiad i ailagor a bendithio' r eglwys a fu ar gau ers y tân ym mis Mai. Bu'n rhaid i'r Gynulleidfa addoli yn Neuadd yr Eglwys oherwydd y difrod a wnaed gan y tân. Maent yn ôl yn yr Eglwys yn awr ac am ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd mor hael ag a weithiodd mor galed i godi'r arian tuag at adfer yr adeilad.

BADMINTON
Unwaith eto mae Gareth Walters wedi cael dechreuad ardderchog i'r tymor Badminton . Mae Gareth sydd yn 17oed wedi cyrraedd yr 8 olaf ym mhob cystadleuaeth i unigolion yn Lloegr a Ewrop dan 19 oed ac wedi dod o fewn trwch blewyn i'r gêm cyn-derfynol sawl gwaith. Enillodd Gareth Bencampwriaeth Cymru i rai dan 19 oed a chafodd ei wobrwyo mewn cyfarfod arbennig yn y Ganolfan Chwaraeon Cenedlaethol yng Ngerddi Soffia Caerdydd. Trechodd bencampwr Estonia sy'n astudio ym Mangor ar hyn o bryd.
Pob hwyl i Gareth fydd yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Colegau Prydain yn ysgol Millfield, lle cafodd y wobr efydd y llynedd. Bydd yn cynrychioli Coleg Penybont lle mae'n astudio am Ddiploma BTec mewn Gwyddor Chwaraeon. Y flwyddyn nesaf mae'n gobeithio mynd i Goleg U. W.I.C. Caerdydd i barhau gyda'i astudiaethau chwaraeon.

YN GWELLA
Mae'n braf i weld Mike Webb yn cerdded o gwmpas y lle unwaith eto wedi'r llawdriniaeth i'w glun.
Dymuniadau gorau am wellhad buan i Richard Parry, High Street a dorrodd ei goes yn chwarae rygbi dros Gilfach cyn y Nadolig. Mae Richard yn gyn-ddisgybl yn ysgol Llanhari ac wrth ei fodd yn chwarae rygbi.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

Ymddeol
Dymuniadau gorau i Meima Morse, Heol yr Eglwys, Tonteg, sydd wedi ymddeol o'i swydd fel Prifathrawes Ysgol Gymraeg y Bronllwyn. Yn barod mae hi wedi profi pleserau tywydd braf yr Ynysoedd Dedwydd a nawr mae hi'n cynorthwyo ym mywyd ardal Llangeithio yn ogystal â'r ardal

Ysgol Gymraeg Garth Olwg

Ymweliad â'r Pantomeim
Ar brynhawn Dydd Iau, Ionawr 11eg aeth yr ysgol gyfan i'r Miwni ym Mhontypridd i weld y Pantomeim "O Crymbs! Nid Barbra Bara!"

Dymuniadau Da
Da yw clywed bod Mr Hughes yn dal i wella. Ein dymuniadau gorau i chwi Mr Hughes.

CWRS CYFIEITHU AR Y PRYD

MENTER IAITH

ym Mhrifysgol Morgannwg, Pontypridd.
26ain o Chwefror - 9fed o Ebrill, 2001.
Cwrs 10 wythnos - pob nos Lun.
Cost: £70 i gyrff cyhoeddus a £35 gostyngiadau.
☎**01443 226386**
🖷**01443 239168**
e✉steffanwebb@menteriaith.net



YSGOL GYFUN LLANHARI

GORAU GWAITH GWASANAETH

Ffair Nadolig
Er y tywydd garw iawn ar y noson fe gafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn eleni. Roedd llawer iawn o'r disgyblion wedi ymdrechu i drefnu stondin ac fe werthwyd allan o gŵn poeth. Codwyd £2,025 o elw yn y ffair a thrwy'r raffl.

Bardd
Llongyfarchiadau i Adam Jordan sydd ym mlwyddyn 9 ar ennill gwobr am ysgrifennu darn o farddoniaeth yn yr iaith Ffrangeg. Cafodd gymeradwyaeth uchel am ei waith mewn cystadleuaeth i Brydain gyfan. Ef oedd yr unig enillydd o Gymru. Yn ôl ei athrawes, Bethan Roderick, mae ar dân eisiau cael cyfle i gystadlu eto! Pob lwc i ti, Adam. Efallai y byddi yn aelod o'r Academie Française un dydd!

Cofiwch bawb:
2001 = Blwyddyn Ieithoedd!

Claire de lune

Comme le soleil dort,
La lune vient dehors,
La lumiere fuit,
Dans l'obscurite de la nuit.

Le vent souffle,
Le Loup hurle,
Dans la profondeur de la nuit,
Sous la lumiere faible de la nuit.

Adam Jordan 9G.

Adam Jordan

Yn y Cynulliad

Ychydig yn unig a all frolio eu bod nhw wedi eistedd y tu ôl i sedd Ron Davies o'r Blaid Lafur ac yn sedd Alun Cairns o'r Ceidwadwyr, yn adeilad y Cynulliad ond dyna'r union beth mae gen i'r fraint o ddweud.

Yn ddiweddar bûm i a phump arall i'r Cynulliad ym Mae Caerdydd er mwyn cymryd rhan mewn cystadleuaeth siarad cyhoeddus Senedd Ieuenctid Ewrop.

Bu rhaid i ni fel tîm ffurfio barn ar bum pwnc llosg a chyfoes er mwyn ychwanegu'n gyson at drafodaethau'r diwrnod. Yn ogystal â hyn roedd gennym un pwnc i arbenigo ynddi sef a ddylid buddsoddi arian i fewn i Ieithoedd Lleiafrifol. Roedd rhaid i ni ddadlau o blaid yr achos, a gan fod y Gymraeg yn cael ei hystyried fel un o'r Ieithoedd yma, nid oedd yn rhy anodd i siarad gyda argyhoeddiad.

Wedi i ni gyrraedd y Cynulliad gaethon ni wers fach ar sut i ddefnyddio'r meicroffonau a rheolau'r diwrnod. Roedd pob dim braidd yn ofnus, yn enwedig wrth glywed y byddai pob araith yn cael ei amseru'n union i 3 munud yn unig, a gan mae fi oedd yn gwneud yr araith doedden ni ddim yn teimlo'n o'r-hyderus!

Er hyn, wedi imi ddechrau'r araith roedd pob dim yn iawn, a thrwy ddefnyddio delweddau megis poster 'Super Furry Animals' yn fy nghyflwyniad, llwyddais dwi'n credu i drosglwyddo fy safbwynt mewn ffordd effeithiol.

Yn ystod y diwrnod cefais gyfle i ychwanegu at nifer o sgiliau megis dilyn rheolau a chyfarwyddiadau pendant a gwrando ar eraill, yn ogystal â dysgu sut mae aelodau'r Cynulliad yn mynd ati i drafod. Er nad oedden ni wedi ennill y gystadleuaeth, mi gafon ni glod am ein cyflwyniad, ac am gychwyn y diwrnod yn llwyddiannus gan mai ni oedd y ddadl gyntaf.

Er mwyn cloi'r diwrnod, cawsom gyfle i daflu cwestiynau at aelodau'r Cynulliad megis Elin Jones o Blaid Cymru ar bwrpas a gobeithion y Cynulliad. Roedd yr holl brofiad yn un i'w gofio ac yn sicr un byddaf am ei ailadrodd petai'r cyfle gen i.

Nadine Beaton
gyda Ifan Glyn, Jonathan Taylor,
Gwenllian Elias a Kelly Jones

Taith Hanes i'r Somme a Gwlad Belg

Bu pedwar deg dau o ddisgyblion Bl 11, 12 a 13 ar daith addysgiadol i Ffosydd y Somme yn Ffrainc ac i wlad Belg am bedwar diwrnod. Buom yn ymweld â llawer o leoedd diddorol a hanesyddol.

Buom yn ymweld ag amgueddfa "Historial de la Grande Guerre" yn Peronne lle gwelsom arteffactau o'r Rhyfel Mawr. Hefyd aethom i Mametz Wood i weld cofeb y Cymry a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Profiad unigryw a bythgofiadwy oedd ymweld â'r mynwentydd megis Thiepval, a Tyne Cot lle mae dros 35,000 o enwau o filwyr a laddwyd ond ni ddaethpwyd o hyd i'w cyrff. Buom hefyd yn Lochnegar Crater, Devil's Wood a Beaumont-Hamel, lle gwelsom olion y ffosydd, tyllau bomiau a'r tyllau lle glaniodd y ffrwydriadau. Roedd yn anodd dychmygu heddiw wrth sefyll ar lecyn mor dawel yn Beaumont-Hamel y gyflafan a fu degawdau 'yng nghynt lle collodd cymaint o fechgyn ifanc eu bywydau. Ymwelsom hefyd â bedd Hedd Wyn yn Artillery Wood.

Profiad dirdynnol oedd sefyll yn Menen Gate yn Ypres am wyth o'r gloch y nos i glywed y 'Last Post' – traddodiad sydd, heblaw yn ystod yr Ail Ryfel Byd, wedi parhau bob nos ers 1927. Roedd yn anodd peidio â cholli deigryn wrth weld y miloedd ar filoedd o enwau ar waliau'r gofgolofn.

Dydd Sadwrn aethom i amgueddfa ''In Flanders Field' yn Ypres lle cawsom gyfle i ddysgu hyd yn oed mwy am y Rhyfel mawr. Prynhawn dydd Sadwrn aethom i Brugges. Tref hynafol a phrydferth iawn lle'r oedd naws Nadoligaidd yno a'r goleuadau a'r coed 'Dolig yn addurno'r strydoedd.

Mwynheuodd pob un ohonom ac yn sicr ar ôl bod yn ymweld â'r Ffosydd mae'n anodd disgrifio'r profiad o grwydro'r mynwentydd a gweld beddau naill ai â enw ac oed y milwr neu dim ond "A soldier killed in the Great War – known unto God" wedi'i ysgrifennu ar y bedd. Mae'r profiad yn sicr o lynu yn ein cof am amser hir.

E E Thomas.

Ysgol Heol-y-Celyn

Criw Clwb y Dwrlyn yn ymweld â Stadiwm y Mileniwm ym mis Rhagfyr

Y Cynhaeaf
Yn gyntaf hoffai staff yr ysgol ddiolch i'r rhieni am eu cyfraniadau hael o lysiau a bwydydd eraill tuag at y gwasanaeth cynhaeaf, a berfformiwyd gan ddosbarth blwyddyn 6 yr adran Gymraeg.

Bu plant hynaf yr ysgol yn brysur iawn yn ystod y tymor diwethaf yn ymgymryd â nifer o weithgareddau a thripiau. Un trip addysgol a hynod o Iwyddiannus oedd y trip i Lancaiach Fawr. Dysgodd y plant lawer am oes y Stiwardiaid ac yn ôl eu sylwadau roedden nhw wedi mwynhau yn fawr iawn. Fe aeth plant blynyddoedd tri a phedwar ar drip hefyd i'r Pwll Mawr ym Mlaenafon, i ddysgu mwy am hanes y diwydiant glo yn ne Cymru. Er bod y profiad ychydig yn ofnus wrth fod yn nyfnderoedd y ddaear roedd yn brofiad gwerth chweil.

Dawnsio Gwerin
Llongyfarchiadau i saith o blant blwyddyn chwech a gafodd eu dewis ar gyfer cael eu ffilmio yn dawnsio gwerin i Opus gogyfer a ffilm `Y Delyn' sydd ar y teledu ar ddydd Gŵyl Dewi. Y plant a gymerodd ran oedd Daniel Evans, Nikki Parfitt, Samantha Harris, Amy Jones, Shane Price, Danny Owen a Jamie Neek.

Nid dyna'r unig ddawnsio a gafodd ei wneud y tymor yma, ffilmiwyd y plant yn gwneud `American Square Dancing' yn yr ysgol hefyd ar gyfer ffilm sydd i'w anfon i ysgolion Cymru oddi wrth ACAC i hyfforddi athrawon sut i ddawnsio gwerin fel yng Nghymru a gweddill y byd.

Llwyddiant hefyd oedd y gweithdy `Facts and Figures' a ddaeth i'r ysgol i gynnig gweithgareddau mathemategol defnyddiol tu hwnt. Roedd ymateb y plant yn ardderchog ac yn llawn brwdfrydedd - yn amlwg roeddent wedi mwynhau.

Yn ystod y tymor cymerodd barti canu a dawnsio'r ysgol ran mewn noson arbennig yn y Ganolfan Hanesyddol ym Mhontypridd, ble roeddent yn perfformio o flaen cryn gynulleidfa.

Ymwelwyr
Daeth nifer o ymwelwyr i'r ysgol hefyd. Rhai bobl bwysig leol fel Maer Pontypridd sef y cynghorwr Alan Cotton a phrif weithredwr cyngor Pontypridd Mr Nigel Griffiths. Daethant i addysgu'r plant am bwysigrwydd rheolau'r ffordd fawr a'u gwobrwyo am eu gwaith ar ddiogelwch y ffordd fawr. Eraill oedd Mr Peter Hodge i ddiddanu pawb gyda'i ddawn arlunio drwy adrodd hanesion moesol a chrefyddol. O'r Almaen ddaeth yr ymwelwyr eraill i ddysgu'r plant am fywyd ysgol a phob dydd yn yr Almaen. Dysgodd y plant gân ganddynt yn cynnwys nifer o ieithoedd gwahanol, sy'n boblogaidd iawn ymysg y plant.

Gwobr Dylunio
Llongyfarchiadau calonnog i Rhianydd Jones am ennill gwobr am gystadleuaeth dylunio a lliwio a oedd yn ymwneud â bwyta'n iach. Yn ogystal i Rochelle Cronick a enillodd gystadleuaeth dylunio cerdyn Nadolig. Da iawn nhw.

Chwaraeon
Canmoladwy iawn oedd hanes chwaraeon yr ysgol hefyd. Enillodd tîm pêl-rwyd yr ysgol eu gem gyntaf yn erbyn Evan James o 4-3. Enillodd y tîm rygbi yn erbyn Pont Siôn Norton o 20-15, ond colli a wnaethant yn anffodus yn erbyn Pontyclun o 34-19. Llongyfarchiadau i Rhys Downes, Matthew Sealey a Robert Evans am gael eu dewis i chwarae rygbi dros dref Pontypridd. Llwyddiannus oedd perfformiad tîm traws gwlad yr Urdd hefyd. Ond llongyfarch y tîm athletau yn bennaf sydd angen ei wneud yma am eu llwyddiant ardderchog. Daethant yn gyntaf yn y rownd derfynol drwy ardal Taf a maent nawr yn mynd drwodd i'r prif rownd derfynnol sydd ym mis Mawrth. Pob lwc iddynt.

Canmoladwy yw ymdrechion Brian Davies o ddosbarth 5C a oedd wedi cystadlu yng nghystadleuaeth Rasio Beiciau Modur Prydain Fawr a gafodd ei chynnal yn Birmingham ychydig yn ôl.Yn ogystal â Samantha Harris o'r un dosbarth a gafodd drydydd mewn cystadleuaeth agored Karate. Dal ati Brian a Samantha, da iawn chi.

Athrawon Newydd
Rhaid cofio hefyd croesawu aelodau o staff newydd i'r ysgol sef Mrs Afrul Davies, Miss Nia Llwyd a Mrs Tracey King, ond wrth gyfarch rhai newydd rhaid ffarwelio â un sef Miss Julie Jones a fu'n gweithio yn yr ysgol am dymor. Gwerthfawrogwyd ei gwaith yn fawr iawn a phob lwc iddi yn y dyfodol.

Ffair Nadolig
Diolch i'r gymdeithas rieni am gynnal ffair Nadolig lwyddiannus ac am eu cefnogaeth tuag at y cyngerdd Nadolig. Gweithiodd yr athrawon yn galed am wythnosau yn dysgu a pharatoi y plant ar gyfer y pantomeim CindereIla. Perfformiodd pob un o'r plant yn dda ond ardderchog oedd perfformiadau y prif gymeriadau sef Carly Howells, Daniel Evans, Matthew Sealey, David Jones, Rhys Downes, Gemma Jones a Danny Owen. Da iawn nhw.

Nia Llwyd

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Blwyddyn Newydd Dda i chi.
Daeth nifer helaeth ynghyd ar bnawn Calan, i gerdded i fyny'r Garth. Dechreuom o Neuadd y Pentref, lle clywsom gân gan griw y Fari Lwyd. Dwi ddim yn credu i'r Fari lwyddo i gerdded i fyny'r Garth chwaith! ond eto buom yn canu emynau Seisneg a Chymreig.

Yn dilyn gair o groeso gan y Cynghorydd Penri Williams, canu Cwm Rhondda a chael gweddi, cawsom ychydig o eiriau gan ein Aelod o'r Cynulliad, Jane Davidson. Yna yn y gwynt mawr llwyddwyd i gynnau fflam ar y torch. Erbyn i ni ddechrau cerdded yn ôl i lawr roedd wedi nosi, ac angen help thors neu lamp.

Aeth nifer fawr yn hwyrach i'r Clwb Rygbi, i fwynhau tân gwyllt ac ambell i gŵn poeth. Roedd yn ffordd gymdeithasol iawn i ddechrau'r flwyddyn newydd!

Cerddorfa Ieuenctid Prydain
Llongyfarchiadau mawr i Stephanie Dyer, Maes y Sarn ar gael ei dewis i chwarae trombôn yng Ngherddorfa Genedlaethol Prydain Fawr i Blant. Mae wedi ymddangos mewn cyngherddau o gwmpas Prydain, yn cynnwys Royal Festival Hall, Llundain a'r Queen Elizabeth Hall, ac mae'r gerddorfa wedi paratoi cryno ddisg .Mae rhaid ei bod yn brofiad arbennig yn ymddangos gyda goreuon Prydain Fawr ar lwyfannau o'r fath.

Mae Stephanie yn ddisgybl Blwyddyn 8 yn Ysgol Gyfun Plasmawr. Mae rhaid bod ei rhieni Graham ac Elaine yn brysur yn cludo Stephanie o un man i'r llall. Ardderchog Stephanie.

Rwy'n sïwr wnawn clywed mwy o dy hanes o bryd i bryd.

Gwellhad Buan
Gwellhad buan i Gwilym Rees, Llyswen. Torrodd Gwilym ei goes tra'n mwynhau yn yr eira mawr. Druan ohono, ac yntau ond yn dair oed. Brysia wella Gwilym, a gobeithio y byddi di ar dy draed mewn dim amser. Mae dy ffrindiau yn y Cylch Meithrin yn edrych ymlaen at dy gael di'n ôl.

Y Fari Lwyd yn y Lewis Arms Pentyrch

Hoffwn ddymuno'n dda i Nerys Snowball a Don Llewellyn, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Hoffwn ddanfon yr un dymuniadau i Vi Jones, sydd hefyd wedi bod yn anhwylus, ac wedi ei chadw i fewn yn yr ysbyty dros nos. Dymunwn wellhad buan i chi.

Pasio'r Prawf
Mis Tachwedd roeddwn yn llongyfarch Heledd Morris ar basio ei phrawf gyrru. Nawr tro Lowri ydy hi wrth iddi hi basio ei phrawf gyrru hefyd. Bydd galw mawr ar y ceir nawr! Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

Noson Gymreig
Ar ddechrau Mis Ionawr, cynhaliwyd Noson Gymreig yn y Lewis Arms, Pentyrch. Jim Morris wnaeth drefnu'r noswaith, a bu yn ffodus i gael Sara Lewis a Nia Morris i ganu'r delyn, y Fari Lwyd i alw fewn, ac i gael Gerwyn Williams ac Aled ei fab yn canu'r gitar. Fe wnaeth pawb fwynhau y cyd- ganu ar ddiwedd y noswaith, a mawr yw'r diolch i Jim. Mae'n debyg fydd yn ddigwyddiad misol o nawr 'mlaen, wrth i berchnogion y dafarn fod yn gefnogol iawn i'r fenter.

Y Fari Lwyd
Mae'r Fari Lwyd wedi bod yn brysur iawn! Cafwyd noson yn y Kings Arms o dan ofalaeth Merched Y Wawr, Y Garth. Daeth nifer ohonom at ein gilydd i fwynhau noson gymdeithasol, lle cawsom ymweliad gan y Fari Lwyd, ac yna cyfle i ddal i fyny â'r clecs, cyn mwynhau gwledd o bwffe. Cyn mynd adre, plesiwyd pawb gan anrheg oddi wrth Siôn Corn. Diolch yn fawr i'r hen Fari a'i Sarjiant, am eu hamser.

Mis nesa' byddwn yn cwrdd ar Nos Fercher, 14 Chwefror – Gŵyl San Ffolant - yn nhŷ Ann Hughes, Heol y Parc i fwynhau noson Caws a Gwin gyda elw'r noson yn mynd at Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro.

Clywais i'r Fari Lwyd ymweld ag ysgolion yn ogystal, sef Ysgol Creigiau ac Ysgol Santes Tudful. Rwy'n sïwr i'r disgyblion fwynhau ei gweld ,a dysgu ychydig am ei hanes . Da iawn - hanes byw ar waith yn ein hysgolion. Mae'n debyg mai penglog "Y Fari" gwreiddiol o Bentyrch sydd i'w gweld yn yr Amgueddfa yn Sain Ffagan. Mae'n diolch yn ddyledus i Judith Evans a Gill Rees, sy'n gofalu am y Fari newydd o flwyddyn i flwyddyn, ac yn ei hadnewyddu fel bo'r angen.

Gwledd Calan
Diolch i Marged ac Ifan Roberts am agor eu cartref ar Ddydd Calan, i godi arian i'r Urdd. Cafwyd gwledd o gawl, a dwi'n sïwr amser da yn Nhŷ Cnau.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

Yn yr Ysbyty
Mae Mr Walter Jones wedi bod o dan driniaeth law feddygol yn ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ôl yn Mis Hydref 2000, ac yn wir mae wedi dod dros y driniaeth yn syndod o dda, ac yn ail gydio yn ei waith rhan amser yn y Brifysgol yng Nghaerdydd,ac yn ei amser hamdden gyda Gwibwyr Taf Elái. Mae yn hoff iawn o gerdded ac wedi trefnu teithiau cerdded ledled Cymru a thros y gororau pan oedd yn Swyddog ysgolion yn yr Amgueddfa Werin, ac wedi ei ymddeoliad o'r Amgueddfa.

Mae Walter yn hanu o Gei Newydd yng Ngheredigion ac wedi priodi a merch o Donyrefail Shirley a chanddynt ddau o blant Ceri a Siân a dau o wyrion – gefeilliaid. Mae Ceri a'i gymar yn byw ym Mro Gŵyr a Siân a'i chymar yn byw yn Swydd Caerlŷr.

Colli Siopwr
Mae'r flwyddyn newydd wedi dod a'r hen un wedi mynd, ond nid heb adael ei hôl chwaith, ar ddiwedd Tachwedd collwyd Mr Denys Gibson yn 90 oed. Roedd yn berchennog siop Hammonds a'i Gwmni Cyf., *ironmonger* ar sgwâr Tonyrefail. Roedd Mr Gibson yn ŵr busnes ag yn barod i helpu â chyngor a chymwynas bob amser a gellid dibynnu arno. Geidw ddau fab Paul a Ian. Collodd ei wraig rai blynyddoedd yn ôl. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Dewi Sant Tonyrefail, gwasanaethwyd gan y Ficer Y Parchedig Stephen Ambani ac wedyn yn amlosgfa Llangrallo. Mae Ian yn dal yn y busnes, ac mae ef a'i deulu wedi symud i lawr i gartref ei dad yn Tonysguboriau, ar ôl bod yn byw yn Celyn Isaf Cwmlai ers iddo briodi rai blynyddoedd yn ôl. Mae Paul yn byw i ffwrdd.

CAPEL Y TON.
Mae un o aelodau Capel Y Ton sef Mrs Gwennie John wedi bod yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ag yn ystod yr wythnos ddiwethaf wedi ei symud i Ysbyty Dewi Sant Pontypridd. Gobeithio y caiff wellhad buan a chael dychwelyd i'w chartref. Mae un arall o'n haelodau Mrs Ivy Priddle lawer iawn yn well ar ôl ei chodwm ryw saith wythnos yn ôl.

Mae'r teulu wedi cael ei syfrdanu yn ddiweddar gan farwolaeth sydyn Mr Howard Evans brawd i fab ynghyfraith Mrs Priddle, Lionel gwr Jane a thad Louisa. Roedd Howard yn frodor parchus iawn yn cael ei y Ton ac roedd hynny yn adlewyrchu gan y llu o bobl a ddaeth i'r Angladd yn eglwys Dewi Sant prynhawn Iau y 18fed o Ionawr. Roedd yr eglwys o dan ei sang a llawer iawn yn sefyll ar eu traed yn ystod y gwasanaeth. Y Parchedig Stephen Ambani, y Ficer lleol oedd yn gwasanaethu. Claddwyd ef ym Mynwent gyhoeddus Tonyrefail.

Ysgol Gymraeg Tonyrefail.
Ar droad y flwyddyn cefais y newydd syfrdanol fod Mrs Susan Preece y Brifathrawes yn gadael Ysgol Gymraeg Tonyrefail am swydd Prifathrawes ar Ysgol Gymraeg Llantrisant ar ddiwedd y tymor presennol. Rwyn siŵr fydd yn cyflawni ei gwaith yn urddasol yn ei swydd newydd, fel mae wedi gwneud yn ysgol y Ton. Fel cyn lywodraethwr Ysgol Gymraeg Tonyrefail, roeddwn yn y gadair pan ei apwyntiwyd yn Ddirprwy Brifathrawes naw mlynedd yn ôl i Miss Betsi Griffiths y Brif Athrawes ar y pryd.

Ryw bedair blynedd yn ddiweddarach daeth tro Betsi i ymddeol ag apwyntiwyd Mrs Preece yn unfrydol yn Brifathrawes. Mae yn chwith dros ben gennyf ei gweld yn gadael ond yn deall hefyd fod profi o borfeydd newydd yn gymorth mawr. Colled anferth i Ysgol Gymraeg Tonyrefail ac ennill anferthol i Ysgol Gymraeg Llantrisant. Mae wedi bod yn bleser cydweithio â Mrs Preece yn ystod fy amser fel llywodraethwr yn yr ysgol. Y dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.

Annwyl Olygydd

'GWAWRDDYDD NEWYDD'
Adeiladu Ysgolion Newydd
a Ffordd Osgoi

Annwyl Olygydd
Yn dilyn y cyhoeddiadau diweddar gan y Cynulliad Cenedlaethol a chan Gyngor Rhondda Cynon Taf rwy'n gobeithio y gall cymunedau Tonteg, Pentre'r Eglwys, Llanilltud Faerdref ac Efail Isaf edrych ymlaen at gyfnod o undod a heddwch gwleidyddol a chymdeithasol.

Mae'r ymgyrch i gael cyfleusterau ac adeiladau newydd i Ysgolion Rhydfelen a Gwaelod y Garth wedi bod yn un hir ond yn ddiweddar mae rhai wedi bod yn chwarae pêl droed gwleidyddol gyda'r materion yma. Y canlyniad oedd rhwygo cymunedau, a gwleidyddion o bob plaid yn dangos pa mor unllygeidiog maint yn medru bod. Roedd safbwynt ein Cyngor Cymuned yn arbennig o siomedig. Ydy cael ffordd osgoi yn bwysicach nag addysg ein plant? Nac ydy wrth gwrs! Rhaid cofio, pan ddaw hi i etholiadau yn y man, yr hyn a ddywedwyd gan ein cynrychiolwyr gwleidyddol - wrth i ni benderfynu i ble y dylwn osod y groes ar y papur pleidleisio. Syndod hefyd oedd clywed mewn cyfarfod cyhoeddus agwedd negyddol rhai unigolion at yr hen iaith. Mae yna dipyn o ffordd i fynd felly a dydy'r frwydr i achub yr iaith ddim ar ben.

Fel un a fynychodd Rhydfelen yn y chwechdegau a'r saithdegau gallaf ddweud *'mai dedwydd oedd hi yn y wawrddydd yna i fod yn fyw ac i fod yn ifanc - nefoedd'*. Geiriau'r bardd Wordsworth yn cyfeirio at y Chwyldro Ffrengig tuag at ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Mae Cymru yn le cyffrous a chwyldroadol i fyw ynddi yn y milflwydd newydd. Gall holl blant y cylch edrych ymlaen nawr at Rhydfelen a Garth Olwg newydd a dyfodol sicrach i'r iaith. *'Mewn undeb mae nerth'* ac felly y dylai hi fod dros y blynyddoedd nesaf, wrth i ni weld y ddau gynllun yn cael eu gwireddu.

Huw Thomas Davies
'Llwyn Coed',
Llanilltud Faerdref

LLWYTH YN CWRDD

Trefnwyd noson deuluol, yn Ninbych y Pysgod, ar gyfer aelodau llwyth Thomas, Glanaman, Sir Gaerfyrddin. Y person oedd yn clymu nhw i gyd at ein gilydd oedd Mamgu Glanaman - Rachel Ann Thomas. Fe ddaeth y teulu yn wreiddiol o ddyffryn Tywi, o ardal Brechfa a Llanegwad ond hefyd o Lynrhedyn yn y Rhondda. Roeddent yn deulu gyda gwreiddiau amaethyddol ond erbyn hyn yn gweithio mewn meysydd amrywiol tra wahanol.

Yn cynrychioli Llanilltud Faerdref, Efail Isaf a Phentre'r Eglwys oedd Huw Davies ac Eirian Rees - dau gefnder a'u teuluoedd - dros ugain erbyn hyn. Roedd y niferoedd yn amrywio wrth i'r noson ddatblygu ond fe gyrhaeddodd y pedwardegau uchel yn hawdd. Gwibiodd aelodau o bendraw'r byd (gan gynnwys Bahrain) i noson a oedd yn llwyddiant ysgubol. Roedd y bwyd yn flasus dros ben, y cwmni yn gyfeillgar a'r lleoliad yn ddelfrydol. Neilltuwyd tafarn 'Y Goets a'r Ceffylau', Stryd Uchaf y Broga, yn arbennig i'r teulu.

Cymerodd Huw hi'n ganiataol mai cendyr oedd pawb o fewn y pedair wal. Pan groesawyd ef gan fenyw wrth fynd mewn, fe gofleidiodd hi, tan i'w gefnder, Aled, ddweud wrtho mai un o staff y dafarn oedd hi! Efallai na fyddwch yn adnabod rhai o'r bobl yn y lluniau ond maent yn adlewyrchu naws hapus y noson. Syndod a phleser oedd clywed cymaint o Gymraeg oedd rhwng y cendyr.

O'r chwith i'r dde - Helen & Huw Davies, Hefin Thomas, Eirian Rees, Malcolm Vincent, Ann Rees, Jeni & Hywel Rees, Pat & Aled Williams - y cendyr i gyd yn yr aduniad teuluol o lwyth Thomas.

LLANILLTUD FAERDREF

Gohebydd Lleol:
Huw Thomas Davies

LLONGYFARCHIADAU

I Becky Davies, Llanilltud Faerdref, sydd yn Ysgol Gyfun Rhydfelen, ar gael ei dewis i fod yn rhan o gynyrchiad *'Requiem Druffle'* Opera Ieuenctid Cenedlaethol Cymru. Fe fydd hi wrthi yn yr wythnosau nesaf yn ymarfer a pharatoi yn wythnosol ar gyfer perfformiadau dros y Pasg ac yn ystod yr Haf.

I Jessica Davies, Llanilltud Faerdref, sydd yn Ysgol Garth Olwg, am basio arholiad cyntaf yr Ysgol Roc ar y guitar. Diolch yn arbennig i Clark Ellis, yr athro, am ei anogaeth.

I holl fyfyrwyr Coleg Pontypridd sydd ar y Cwrs Cyfrifiadurol ac wedi cwblau 30 wythnos o hyfforddiant a derbyn Tystysgrif Lefel I mewn Technoleg Gwybodaeth. Mwy am hyn yn y rhifyn nesaf.

Ballet

Llongyfarchiadau i Jessica Davies, Llanilltud Faerdref a Lowri Hughes, Pentre'r Eglwys, ar basio eu harholiad ballet yn ddiweddar gydag anrhydedd. Mae'r ddwy yn ddisgyblion yn Ysgol Garth Olwg ac wedi gwario oriau dros yr wythnosau yn arwain at yr arholiad yn ymarfer gyda'u hathrawes Kim Bardsley.

Chwith i'r dde - Becky Davies, Ffion Rees, Anna Smith, Jeni Rees, Caroline Rees, Helen Davies, Liz Rees - rhagor o aelodau'r goeden deuluol.

Chwith i'r dde: Lowri Hughes, Kim Bardsley a Jessica Davies

CYSTADLEUAETH IOLO

Beirniadaeth Rhys Dafis

Blwyddyn 7: Cerdd "Y Ffair"

Derbyniais 149 o gerddi cyffrous (o Glantaf, Llanhari a Rhydfelen), ac o'r eiliad yr agorais yr amlenni, cefais fy nghipio'n ddi-drugaredd o olwynion Feris i waltzers chwîl, i ddodjems a Mad Max. Roedd fy mhen yn troi wrth i sŵn hyrdi-gyrdi'r ferigorownd herio sgrechfeydd y trên ysbrydion, a chipiwyd fy anadl wrth blymio dros ddibyn y ffigarêt. Ac mi enillais wobrau lu am saethu a llorio cnau coco a thaflu dartiau, cyn claddu fy wyneb yn siwgwrllyd ludiog mewn afalau toffi a chandi fflos! Erbyn dod at y gerdd olaf un, roeddwn wedi blino'n lân!

Roedd hon yn gystadleuaeth dda, gyda mwyafrif y beirdd wedi mynd i ysbryd miri'r ffair. Aeth rhai i drafferth mawr i dynnu llun lliwgar o gwmpas neu'n gefndir i'w cerddi, ac ychwanegodd hynny lawer at yr awyrgylch a mwynhad y darllen. Dyma flas o'r cerddi.

Mae Siwan Long, Glantaf yn dal yr awyrgylch yn dda ar ddechrau ei cherdd:

Reidiau, gwobrau, golau,
Gemau, losin a stondinau,
Wel, dyma hwyl a sbri.

Rhys Williams–Way o Lanhari wedyn, yn codi awydd bwyd gyda'r llinellau hyn!

Rwy'n teimlo'n sal cyn dechrau!
Lawr a lawr i'r twnel du,
Awn i gael ci poeth yn nawr.
Ie, awn ar yr olwyn fawr nesa'.

Aeth Huw Evans, Rhydfelen gam ymhellach!

Boita afal toffi,
Boita candi fflos,
Boita byrger caws,
Boita hufen ia blasus;
Hwdi ar y ffordd gartref –
Rwy'n hoff iawn o'r ffair.

Hoffais ddechrau cerdd Bethan Spencer, Glantaf hefyd:

Enfys o liwiau, fel sêr amryliw, yn sgleinio yn y nos.
Mae'r reidiau fel bwganod swnllyd yn sgrechian miwsig
Allan o'u cegau mawr tywyll.

Rwy'n gosod 2 gerdd yn y drydydd safle, sef cerddi Marged Jones, Glantaf a Gwenno Elin Jones, Rhydfelen. Mae'r ddwy gerdd wedi dal yr awyrgylch a'r cyffro, a llwyddo i'w gyfleu yn gryno a llawn asbri.

Dyma rannau o'r ddwy gerdd:

Mae sŵn a chyffro yn y ffair,
'Halibalw', dyna ydy'r gair.

Y stondin balŵns, wel dyma sbri,
Edrychwch bawb, enillais dri!

Y diwrnod wedyn pan es i'r dre,
Doedd dim ffair i'w weld yn un lle,
Llwch a sbwriel ym mhob man
Diflannodd y ffair, sgwn i pam?

Gwenno Elin Jones, Rhydfelen

Ar noson oer o Dachwedd,
A'r gwynt yn finiog oer,
Cychwynnaf ar fy ffordd i'r ffair
Yng ngolau clir y lloer.

Mae sgrech y chwyrligwgan
I'w glywed hyd y lle,
Stondinau prysur, lliwgar,
Yn rhesi hyd y dre .....

Ac yna tuag adref,
A'r gwynt yn finiog oer,
Yng nghwmni cariad newydd
Yng ngolau clir y lloer.

Marged Jones, Glantaf

Yn gydradd ail, ac yn agos iawn i'r brig, mae Lowri-Elen Browning, Rhydfelen a Branwen Hefin, Glantaf. Mae'r cerddi hyn yn fwy aeddfed. Mae aeddfedrwydd Lowri-Elen yn ei syniadau a'i delweddau – llinellau ardderchog fel *'chwyrligwgan o liwiau'* a *'disgo o synau byddarol'*. Ceir aeddfedrwydd Branwen yn ei mynegiant rhwydd mydryddol, a chefndir gwahanol ei cherdd – sef ffair yr ysgol. Dyma'r ddwy gerdd i bawb gael eu mwynhau.

Golau'n fflachio'n wyllt fel rhybudd yr heddlu,
Chwyrligwgan o liwiau,
Lluniau yn troi a throsi yn fy mhen
Wrth i'r cerbyd fy nhaflu yn ffyrnig.

Candi fflos yn glynu wrth fy nhafod fel plentyn ofnus,
Cymysgedd o saim o selsig,
Arogleuon yn tynnu dŵr i fy ngheg
Wrth chwarae gyda fy ffroenau.

Sgrechiadau ofnus fel hunllef dychrynllyd,
Disgo o synau byddarol,
Sŵn cyffro ac hapusrwydd
Wrth i'r siwrne ddod i ben ei thaith.

Olwyn fawr fel cawr yn gwylio drosom,
Jwngl o gerbydau
Siapiau a lliwiau yn diflannu'n y pellter
Wrth imi deithio'n nes at y sêr.

Llyfrau diddorol,
Teganau rhagorol,
Gemau rhad,
I bawb mwynhad!

Rhieni, athrawon,
Merched a dynion,
Pob un yn brysur,
Mae hwn yn achlysur!

Paned o de,
Rhoi'r byd yn ei le,
Coffi a chacan,
Creision a brechdan.

Gwisg ail-law,
Bwced a rhaw,
Eitemau di-ri,
Dewch yn llu –
I Ffair Glantaf!

Cyfrannwch yn hael,
Mae digon i'w gael –
Yn Ffair Glantaf!
Branwen Hefin, Glantaf

Ond, yn gyntaf eleni, mae cerdd wych gan Manon Humphreys, Rhydfelen. Mae Manon wedi dal holl awyrgylch y ffair. Mae gwibio o gwpled i gwpled yn union fel brysio o un reid i'r nesa! Mae'n llawn cyffro a darluniau byw, a chewch eich hunain yno yng nghanol y rhialtwch. A llwyddodd Manon i ddweud y cyfan heb iddo fynd yn gatalog o bethau'r ffair. Da iawn wir.

1. Manon Humphreys, Rhydfelen
2. Branwen Hefin, Glantaf, a Lowri-Elen Browning, Rhydfelen
3. Marged Jones, Glantaf, a Gwenno Elin Jones, Rhydfelen

Agos i'r brig: Eleri Jones, Bethan Spencer, Alun Blacker, Siwan Long, Nia Bryant (Glantaf); Rhys Williams, Natalie Perry (Llanhari); Richard Tennant, Stephanie Titley, Aimee Clement-Jones, Huw Evans (Rhydfelen).

Manon Humphreys

Y Ffair

Yn y ffair cewch hwyl a sbri,
Chwarae, chwerthin, sbri-di-ri!

Ceir yn clatsio dros y lle,
Gyrru'n wallgo; BANG! Hwrê!

Pysgod aur mewn bagiau plastig,
Ennill gwobr. 'Na ffantastig!

Candi fflos a byrgers coeth,
'Fale, taffi a chwn poeth.

Chwyrligwgan, Waltsers toc,
Losin dant, Pwllheli roc,

Gwibio'i fyny ac i lawr
Ar y rolercoster mawr.

O! mae mhen i'n dechrau troi
Ac mae nghalon yn cyffroi!

Pryd ddaw'r artaith hyn i ben?
Wynebau pawb fel cadach wen!

'O, roedd hwnna'n real cŵl!'
Medd fy ffrind sydd weithiau'n ffŵl.

'Beth am rywbeth mwy sidêt?'
'Trên ysbrydion, ffigarêt?'

'Nage wir' meddwn innau,
'Olwyn Fferis fasai orau'.

Dyma ni yn edrych lawr
Ar bob un fel morgrug nawr.

Gweld y ffair fel teyrnas hud
Ond mae'r miwsig nawr yn fud.

Diffodd mae'r goleuadau'n glou,
Mae'n bryd i ninnau ddechrau troi.

Cerdded adre'n hapus braf
Ar y noson ganol haf.

Yn y ffair ces hwyl a sbri,
Chwarae, chwerthin, sbri-di-ri.

Manon Humphreys,
Rhydfelen

Diolch yn fawr iawn i Rhys Dafis am drefnu a beirniadu'r gystadleuaeth hon. Dim ond tair o'r chwe ysgol uwchradd a gymerodd ran eleni. Er hynny daeth nifer dda o gerddi i law ac roedd safon y goreuon cystal ag erioed.

CYSTADLEUAETH IOLO MORGANWG

Blynyddoedd 8 a 9: Cerdd "Anrheg"

Derbyniais 284 – ie 284! – o anrhegion o bob math (o Glantaf, Llanhari a Rhydfelen). Roedd y Nadolig yn drwm ar feddyliau'r beirdd, a finne fel rhyw Sion Corn yn derbyn rhestri anrhegion pawb. Mae gen i syniad go dda beth oedd ar sled yr hen Santa wrth iddo wibio o dŷ i dŷ yn yr ardal hon, ac mi roedd na bwysau anferth ar ei sled, does dim amheuaeth am hynny.

Ond roedd rhai o'r anrhegion yn wahanol ac annisgwyl iawn, ac yn dangos nad pethau materol yn unig sy'n bwysig gan bobl ifanc. Roedd gweld hynny yn siwr o fod wedi llonni calon Santa, fel finnau. Yn sicr, mi ofalodd fod hon eto yn gystadleuaeth dda. Dyma ddatod y papur am rai o'r anrhegion.

Fel mae Emily Shanahan, Glantaf yn ein hatgoffa "*Nid yw'r Nadolig i gyd am anrhegion*", gan fod "*rhai pobol yn gobeithio cael rhywle i fyw*", ac eraill "*yn gobeithio cael cadair olwyn*"neu "*galon newydd sbon*". Yn yr un modd, yr anrheg gorau gan Hannah Blunden, Rhydfelen fyddai llygaid newydd er mwyn gallu gweld ei theulu a'r byd o'i chwmpas. Tebyg, hefyd, yw dymuniad Ffion Chard, Rhydfelen:

Annwyl Santa
Rwy eisiau'r anrheg mwyaf yn y byd,
I fy nheulu ddod i fy ngweld am un dydd,
Dim ond un dydd yw e,
Dydwi ddim eisiau doli;
O Santa, plîs wnei di helpu
I mi weld fy nheulu.

I Jodie Parfitt, Rhydfelen, newid ei gwallt o goch i unrhyw liw arall fyddai'r anrheg gorau, er mwyn i'r bwlio di-ddiwedd ddod i ben! A dyma gais diddorol Sarah Williams o'r un ysgol!

Ga i –
Funud o dawelwch i Mam
A char newydd i Dad.
Ga i –
Bapur rolio i dai bach Rhydfelen,
Ac heb os
Gobstoper i rai o'm hathrawon.

Cefais gerddi da am y Nadolig traddodiadol hefyd. Gwelodd Emma Watt, Glantaf y Doethion, wrth gludo'r anrhegion at yr Iesu, yn cydnabod rhodd Duw:

Syllant ar yr Anrheg bach,
Gweld y babi bychan, iach;

A Gwenno Rowlands, Glantaf yn dweud y cyfan mewn un cwpled crwn:

A'r anrheg gorau a gafon ni i gyd
Oedd Iesu Grist, gwaredwr y byd.

Mae Lowri Morgan, Llanhari yn agor ei drws a'i chalon i wraig gas ac unig a welodd yn eistedd ar fainc ger y tŷ. Pan gynigodd iddi ddod i mewn i gael cinio:

Gwelais y rhew yn ei llygaid yn toddi,
A goleuai ei hwyneb fel golau y stryd,

Am ei hiwmor iach a'i slicrwydd, rwy'n rhoi cydradd drydydd i Sara Thomas, Rhydfelen:

Cafodd Mam fwrdd smwddio y llynedd,
Ath hi drwy'r to;
Wnaeth hi daflu'r goeden Dolig;
Sa i'n credu wnaiff Dad hynny 'to.

Roedd tân gwyllt amser brecwast,
Wnaeth e ddim stopo tan de,
Ond ar ol i Mam gael sieri
Roedd popeth nôl yn ei le!

A dyma gydradd drydydd i Steffan Jones, Glantaf am y dweud campus hwn yn ei gerdd:

Un Anrheg go iawn
A roddwyd erioed,
Baban cyffredin anghyffredin,
Duw mewn papur lapio,
A does dim gormod o hwn i'w gael.

Yn gydradd ail, rwy'n gosod y gerdd hiraethus, hoffus hon gan Elin Roberts, Glantaf:

Fe ddônt bob 'Dolig yn ddi-ffael
Mewn bocsus crand yn fawr a bach.
Mae disgwyl mawr yn ein ty ni
Am drysor Santa yn y sach.

Er imi gael dwy ddol a thrên,
A llyfr am 'Westlife' ar eu taith,
A fidio 'Friends', dwy sgert a beic,
Dwi ddim yn hollol fodlon chwaith.

Y 'Dolig hwn, mae Dad i ffwrdd;
Mae'n gapten llong ym mhen draw'r byd.
Ei weld nôl yma fore'r Wyl
Fyddai'r anrheg gorau i gyd.

Hefyd yn gydradd ail mae Rhys ab Owen, Glantaf. Mae cerdd Rhys yn garol sy'n cymharu dwy noswyl Nadolig – heddiw, a dwy fil o flynyddoedd union yn ôl. Mae'n dweud y cyfan yn gryno a gafaelgar mewn dau bennill cyferbyniol, gorffenedig. Sylwch ar y ffordd gelfydd y mae wedi defnyddio'r mydr i ategu ei neges:

Postio y cardiau,
Rhuthro i'r siop,
Prynu y goeden
A gwario di-stop,
Pacio anrhegion
I'r teulu i gyd
Dyna yn awr
Yw Nadolig i'r Byd.

Dau dlawd yn ymdeithio
Tua Bethlehem dref,
Yn chwilio am lety
I Frenin y Nef;
Ac yno mewn preseb
Y rhodd mwyaf i gyd,
Pan roddodd y Duwdod
Ei Fab i'r holl fyd.

Mae un gerdd yn glir ar y brig, sef un Ria Bevan, Llanhari. Mae dawn y bardd yn gryf gan Ria, ac mae wedi llunio cerdd drawiadol a gwahanol iawn i bob un arall yn y gystadleuaeth. Anrheg bywyd ar y Ddaear – rhyfeddod y Greadigaeth - sydd ganddi, ac mae'n cyfleu hynny drwy ddarluniau cyffrous ac aeddfed. Hi heb os yw bardd cystadleuaeth Iolo Morganwg eleni.

1. Ria Bevan, Llanhari
2. Rhys ab Owen, ac Elin Roberts, Glantaf
3. Sara Thomas, Rhydfelen, a Steffan Jones, Glantaf

Agos i'r brig: Lowri Morgan (Llanhari); Gwenno Rowlands, Dafydd James, Emma Watt (Glantaf); Daniel Jones, Ffion Chard (Rhydfelen).

Yr Anrheg

Bwndel balch o ffaglau ffrwythlon.
Pelydrau'r haul yn cusanu'r ddaear.
Tonnau tanbaid yn erydu'r clogwyni hyglwyf.
Awyr serennog yn goleuo noson stormus,
Fel llwyth o gaethweision yn ufuddhau i'w meistri.
Oen bywiog yn neidio'n ffôl,
Heb feddwl am y peryglon.
Curiad calon credadun yn camu 'mlaen,
Fel milwr ar genhadaeth bwrpasol.
Dagrau o dristwch yn disgyn o'r ser,
Pob un yn cynrychioli y digalondid ym mhob llygad.
Blaguryn bach yn blodeuo'r dyfodol.

Tydi bywyd yn anrheg?

Ria Bevan, Llanhari

Ria Bevan

Blynyddoedd 10 ac 11: Cerdd "Cyffro"

Daeth 52 o gerddi i law (o Glantaf a Rhydfelen), a'r rheiny yn amrywio tipyn o ran safon a chyd-destun. Wrth ddarllen drwyddynt, profais bob math o gyffro – e. e. mewn disgo a chyngerdd roc, wrth ddathlu penblwydd, y Nadolig, tân gwyllt, mileniwm newydd, gêm rygbi, mabolgampau, ffair, syrcas, y sêls, a gwyliau!

Y gamp mewn cystadleuaeth fel hon yw llwyddo i gael y darllenydd i rannu'r cyffro gyda'r bardd, ac mae hynny yn gofyn am fwy na son am y digwyddiad neu ddisgrifio'r profiad yn unig. Mae'n rhaid ei fyw yn y gerdd. Mae'n rhaid i'r geiriau afael ynoch, ac mae eu swn a'u mydr yn bwysig iawn yn hynny o beth. Dyma enghraifft dda allan o gerdd Aled Llyr Jones, Rhydfelen am gêm rygbi:

Bloeddiaf yn uchel:
"Agi, agi, agi!"
A bloeddia'r dorf yn ôl:
"Oi, oi oi!"

Felly hefyd Brennig Williams o'r un ysgol:

Ffrwydrodd y cyffro
Fel bomshiel yn gollwng
Pan chwythodd
Y chwiban olaf.

A dyma Nerys Jones, Glantaf yn ein cyffroi nes bod ein coluddion ni'n glymau:

Fe welodd doriad yn y llinell
Rhedeg
Rhedeg fel y gwynt
Pawb yn dal eu hanadl
Yn cau eu llygaid ...
Llwyddiant!
Y dorf yn neidio ac yn gweiddi yn ei dathliadau
Fel be bai'r byd wedi ei achub

Damwain ar noson tân gwyllt sy'n siglo Emily John, Rhydfelen:

Rocedi'n saethu i'r awyr
Cyn ffrwydro'n lliwiau'r enfys ..
Wedyn
Sgrech
A'r cyffro'n troi'n banic
A phawb yn iasoer

Tra roedd Becky Davies o'r un ysgol yn ecseitio'n lân wrth fynd i wario yn y sêls:

Roedd fy nhraed yn dawnsio,
Fy llygaid yn fflachio,
Roedd fy ngwaed yn byrlymu
A fy nwylo'n dirgrynu.

Rwy'n rhoi'r drydedd wobr i Owain Brooks, Rhydfelen am wneud ein nerfau ni'n rhacs wrth aros am yr ergyd i gychwyn y ras. Dyma ran o'i gerdd:

"AR EICH MARCIAU!"
Anadliad dwfn, cyffrous.
Mae llygaid y dorf arnaf fel ias oer;
Mae'r misoedd o ymarfer
Yn y can metr nesaf.

Yn gydradd ail, rwy'n gosod tair cerdd debyg i'w gilydd, sy'n dal cyffro'r ddawns yn effeithiol iawn:

Golau -
Yn fflachio,
Tywynnu,
A neidio i bob cyfeiriad
Fel gwylio mellt yn y nos ddu.

Sŵn –
Yn bloeddio'n
Uchel a thrwm,
A'r tri bod ar y llwyfan
Yn chwarae â nerth eu calonnau.

Pawb –
Yn gyffrous
Yn neidio
Nes fod yr egni wedi dianc
O'u cyrff fel dŵr o'r nen.

Popeth –
Yn siglo,
Byrlymu,
Yn hymian mewn hapusrwydd mawr,
A dim byd yn ein poeni ni.

Laurens Barrow, Glantaf

Mae cyffro fel 'champagne'
Yn suo tu fewn imi,
Mae o fel mil o loÿnod byw
Yn hedfan yn fy stumog;
Mae fy mhengliniau yn crynu
Fel daeargryn,
Ac mae fy mhen mor ysgafn
Â phluen;
Mae fy mysedd yn ysu fel clychau
Ac mae fy nannedd yn dechrau siarad;
Mae gan fy nhraed deimlad poeth,
Ac mae fy nghorff yn dechrau dawnsio ....

Ashley Jevons, Rhydfelen

Coesau yn jeli
Pen yn feddal
Gwaed yn berwi
Croen yn blorynnod i gyd!

Dannedd yn shiglo
Calon yn curo fel drwm
Corff yn crynu fel deilen
A'r teimlad o fyrstio fel potel 'champagne'!

Bethan Griffiths, Rhydfelen

Yn fuddugol y mae cerdd llawn awyrgylch Eryl Norris, Rhydfelen, sy'n disgrifio taith ar yr olwyn fawr yn y ffair. Mae'r mydr a llif y llinellau yn cyfrannu llawer at y teimlad o hedfan sydd yn y gerdd, ac mewn gwirionedd gwelwn mai defnyddio delwedd yr olwyn y mae Eryl i ddarlunio rhyw funud freuddwydiol a gawn bob un, rywbryd. Yn sicr, mae hi wedi llwyddo i gynnal y ddelwedd yn grefftus iawn.

1. Eryl Norris, Rhydfelen
2. Owain Brooks, Rhydfelen
3. Laurens Barrow, Glantaf
   ac Ashley Jevons a Bethan Griffiths, Rhydfelen

Agos i'r brig: Nerys Jones a Lowri Wyn Morgan (Glantaf); Becky Davies,Emily John, Jenna Smith, Aled Llyr Jones a Brennig Williams (Rhydfelen).

Cyffro

.. yr olwyn fawr

Ni fum i erioed
Uwchben y byd,
Pob smotyn yn berson,
Pob pwll yn afon.

Cyn uched a seren,
Seren wib yn saethu
Trwy lanw o gwmwl
Serch ewyn y môr.

Goleuni'r haul
Yn llifo o'm hamgylch
Fel rhaeadr o sidan,
Sidan trwchus a chynnes.

Pob llais a foddwyd
Wrth chwyrlio trwy'r awyr,
Byw breuddwyd fel aderyn
Yn fy myd fy hun

Y teimlad o ryddid
Wrth hofran dros y byd,
Wrth godi a chodi
A throi a throi.

Ond breuddwyd a ddaw
I ddiwedd 'mhen dim,
Pob person nawr yn berson,
Pob afon yn afon.

Unig yw hyn.
Breuddwydion yn goll,
A gwirionedd a ddaw
Wrth gwympo
A chwympo,
A chwympo

Yn ôl at realiti.

Eryl Norris, Rhydfelen

Eryl Norris

Blynyddoedd 12 ac 13: Cerdd "Gafael"

Dim ond un gerdd a ddaeth i law, sy'n siomedig iawn. Ond nid oedd hi'n gerdd siomedig. I'r gwrthwyneb, mae cerdd Betsan Pearce, Rhydfelen yn llawn deilyngu'r wobr gyntaf, a phe byddai degau wedi cystadlu, mae'n amheus a fydde unrhyw un wedi trechu cerdd afaelgar ac amserol Betsan. Ymson Mair sydd yma, wrth iddi fagu'r Iesu newydd-anedig yn ei breichiau, gan wybod ei fod wedi ei eni i farw trosom. Mae'n gerdd gynnil, ond llawn angerdd, gyda'r llinell olaf ym mhob pennill yn ein hysgwyd. Daliwch ati, Betsan.

Gafael

Gafael yn fy nghariad a wnaethost
Y bwndel bach byw o esgyrn a chnawd
Yn griddfan yn dawel yn fy mreichiau tyner
I wynebu'r hunllef.

Dy geg yn gafael yn llaeth fy mron
A swn y sugno yn llenwi'r corff
Fel cerddoriaeth mwyaf pur y Nef
I wynebu'r gosb.

Y llygaid harddaf, dwfn yn gafael ynof fi
Fel moroedd iasoer, claear y Byd
Yn erfyn arnaf
I wynebu'r gwirionedd.

Fi afaelodd ynot ti – bachgen y Byd,
Gwreiddiau gwirionedd yn ymddangos,
Rhoddaist dy fywyd i'r Byd
I dalu'r ddyled.

Betsan Pearce, Rhydfelen

Betsan Pearce

ANGHOFIWCH YR HEIP, GWYLIWCH HIPSTAR



Bandiau, eitemau amrywiol, y newyddion diweddara' o'r byd cerddoriaeth a phedair cyflwynwraig. Dyma'r fformiwla ar gyfer cyfres hwyr-y-nos newydd ar S4C - Hipstar. Yn ystod yr wyth wythnos nesa' bydd modd gweld sesiynau byw, trafodaethau dadansoddol a pherfformiadau gan TOPPER, SKEP, UMMH, MEIC STEVENS, MIM TWM LLAI, ANWELEDIG, MC MABON a DAU CEFN.

Prif gyflwynydd Hipstar yw LOWRI DAVIES, 24 oed, sy'n dod o Ddinas ym Mhen Llyn yn wreiddiol, ond sydd bellach yn byw yn Aberystwyth. Bu'n gweithio yn yr Ariannin am flwyddyn - fe ddysgodd yn y Gaiman wedi iddi raddio.

Yn ogystal â chyflwyno Hipstar mae Lowri yn gweithio ar ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth a hefyd yn golygu'r cylchgrawn celfyddydol Tu Chwith.

Rwy'n edrych ymlaen yn arw at gyflwyno Hipstar, mae'n gyfres dwi eisiau bod yn rhan ohoni meddai Lowri. "Dyma'r math o raglen byddwn yn hoffi gweld fel gwyliwr ond mae cynulleidfa darged Hipstar yn medru bod yn feirniadol iawn. Dwi yn yr oed rhwng 16 a 30 ac rwy'n ymwybodol fy mod i'n gallu bod yn feirniadol iawn."

Yn ymuno â Lowri fydd BETHAN WYN LLOYD, 21 oed, o Gaernarfon sy'n gweithio fel golygydd o dan hyfforddiant yng nghwmni Barcud. Hi fydd yn paratoi eitemau newyddion Hipstar a hi fydd â'r wybodaeth gigs ddiweddara'. Bydd BETHAN ELFYN sy'n cyflwyno Session in Wales, Radio 1, a CATRYN RAMASUT sy'n gweithio fel cynhyrchydd dogfennau radio ar Radio 1, yn ohebwyr crwydrol y gyfres sy'n dod o glwb y Paradox yng Nghaernarfon.

Mae Catryn, 25 oed o Gaerdydd, o dras Thai a Chymreig, wedi cynhyrchu rhaglen ddwy ran Bitch sy'n trin a thrafod artistiaid benywaidd Hip Hop. Enwebwyd y rhaglen ar gyfer gwobr gerddorol Sony.

Obsesiwn oes gyda cherddoriaeth sydd gan Bethan Elfyn, 27 oed, a chafodd flas ar newyddiaduraeth a chwarae recordiau ar radio Prifysgol Caerdydd, cyn gweithio yn Affrica am gyfnod.

HIPSTAR
Nos lau, 11.00pm S4C

MENTER Iaith

ar waith yn Rhondda Cynon Taf
Tŷ Model, Llantrisant

Cynhyrchiad Nadolig y Rascals a Dialwed Dawnus

CHWARAE CHWARAE CHWARAE

Mae cynlluniau chwarae'r Fenter Iaith ar agor unwaith eto eleni gyda darpariaeth rhwng 8.30am a 5.30pm bob dydd o'r gwyliau hanner tymor yn ysgolion Llanhari, Rhydfelen, y Cymer ac Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon. Mae'r gost wedi aros i lawr yn isel iawn ar £9 y diwrnod neu £4.50 gyda gostyngiadau diweithdra, budd-dal, myfyrwyr, Credyd Teuluol ac ati. £4.50 neu £2.25 ydy'r gost i ail neu drydydd plentyn hefyd felly y mae bargen ar gael fan hyn.

Y newyddion da ydy bod y pwll nofio ar gael felly bydd plant Rhydfelen yn cael nofio bob dydd, plant Abercynon yn nofio prynhawn dydd Mawrth, plant Llanhari prynhawn dydd Mercher a phlant y Cymer prynhawn dydd Iau. Mae gennym hefyd ein Castell Sboncio ein hunain a fydd ar gael bob dydd yn Rhydfelen ac ar yr un diwrnod a'r nofio i blant yr ysgolion eraill.

Os nad yw hynny ddim yn ddigon bydd trip arbennig hefyd ar y dydd Gwener wrth i'r plant i gyd fynd i Ŵyl Chwarae Rhondda Cynon Tâf yn Aberdâr lle bydd Martin Geraint a Thrysor yn perfformio i holl blant cynlluniau chwarae Rhondda Cynon Tâf. Mae manylion ein holl wasanaethau gofal a chwarae ar gael gan Trystan Griffiths ar 01443 226386 gan gynnwys ffurflenni cais am waith ar y cynlluniau a ffurflenni i gofrestri eich plant. Cofiwch y cewch gofrestru am bopeth dros y ffôn a thalu gyda cherdyn credyd os ydych am wneud hynny.

CARCO CARCO CARCO

Mae Clybiau Carco y Fenter hefyd ar agor bob dydd o'r wythnos yn ystod tymhorau'r ysgolion yn Aberdâr, Abercynon, Castellau, y Dolau, Evan James, Heol y Celyn, Garth Olwg, Pontsiônnorton a Thonyrefail. Mae pob clwb ar agor yn syth am 3.30pm gyda'r mwyafrif yn cau am 5.45pm ar ôl i'r plant gael chwarae, darllen, gwneud celf a chrefft, nofio weithiau, mynd i'r parc, gwneud chwaraeon a chwarae gemau, edrych ar y teledu a fideo, coginio a derbyn ymweliadau gan bob math o berfformwyr.

Hoffwn i longyfarch Julie Earls yn Garth Olwg yn arbennig sydd wedi datblygu clwb gwych yn yr ysgol honno a Carol Minton sydd nid yn unig wedi rhedeg clwb gwych yn Castellau ond hefyd wedi llwyddo i sicrhau cyllid i'r clwb trwy gydweithrediad â Chwmni Yswiriant Pearl am y dair blynedd nesaf.

Caf adroddiadau da iawn hefyd o glwb Aberdâr yn arbennig lle mae Michelle Bailey wedi bod yn llwyddiant mawr arall. Dylai'r clybiau hyn i gyd fod yn weddol ddiogel yn ariannol at ddiwedd y flwyddyn academaidd hon ond cofiwch chi os nad oes digon o blant yn defnyddio'r gwasanaethau fe fyddan nhw i gyd yn gorfod cael eu cau i lawr – felly – y mae hyn yn rhybudd clir i staff a rhieni lle nad oes llawer o fynd ar y clybiau hyn.

HYFFORDDIANT

Mae gennym ddau gwrs hyfforddi yn dechrau yn fuan sef y Cwrs Cyfieithu ar y pryd a fydd yn dechrau ar 26ain Chwefror ym Mhrifysgol Morgannwg am 6 wythnos gydag Elin Tudur o Gaerdydd a Chwrs Technoleg Gwybodaeth yng Ngholeg Pontypridd gyda Huw T Davies a fydd yn derbyn myfyrwyr newydd am gwrs 30 wythnos. Mae manylion y ddau gwrs ar gael o'n swyddfeydd ac y mae croeso i chi ymuno â ni. Bydd noson fawr i'r rhai sydd wedi gorffen eu cwrs technoleg gwybodaeth eleni wrth i John Walter Jones Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Phrifathro newydd Coleg Pontypridd ymuno â John Llewelyn Thomas, Cadeirydd y Fenter Iaith, i gyflwyno tystysgrifau ar nos Iau 8fed Chwefror yn Nhrefforest.

Rydym hefyd yn chwilio am fwy o hyfforddiant i'n staff a'n gwirfoddolwyr felly os ydych chi'n gweithio mewn coleg neu asiantaeth hyfforddi ac â diddordeb mewn trefnu cyrsiau newydd trwy gyfrwng y Gymraeg rhowch wybod i ni cyn gynted ag y bo modd.

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD

Cafwyd noson arbennig o dda gyda Eirlys Pritchard Jones ychydig cyn y Nadolig gyda rhyw 20 o bobl busnes Cymraeg y Cymoedd. Mae noson ddifyr arall wedi'i threfnu i Emyr Afan o Gwmni Afanti sôn am y Ffactri Bop, sy'n ffilmio grŵpiau pop a roc gorau Cymru yn ogystal â rheoli rhai o grwpiau gorau'r wlad, am 6pm ar 13eg Chwefror yng Nghanolfan Fusnes Prifysgol Morgannwg. Bydd bas data pobl busnes Cymraeg y Cymoedd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar ffurf llawlyfr a gwefan yn fuan iawn fel bod modd i siaradwyr Cymraeg rhwydweithio yn well gyda'u gilydd. Is- gadeiryddion y Cwlwm Busnes yw Lowri Derrick, Buy as

You View, Alun Cox, Adran Ddatblygu Economaidd Rhondda Cynon Tâf, Iwan Llion Cwmni Firm Friends a Dr Owen Jones Cwmni Agrisense Trefforest. Diolch yn fawr i Hywel Evans Menter a Busnes yn arbennig am ei help a David Davies Awdurdod Datblygu Cymru am ei gymorth ariannol yn ogystal â TEC De Ddwyrain Cymru. I'r rhai ohonoch sy'n cofio'r prosiect gyrfaoedd Cymraeg "Gorwelion" rwyf yn falch iawn o ddweud bod yr is-bwyllgor hwnnw bellach yn cyfarfod eto ac rydym yn gobeithio y bydd diweddariad o'n swyddiadur lleol yn cael ei gyhoeddi yn ystod y flwyddyn hon. Bydd Ann Beynon prif reolwraig Cwmni BT yn siaradwraig wadd yn y cyfarfod nesaf ar 10fed Ebrill 2001. Cewch fwy o fanylion a chofrestri gan gysylltu â'n Ymchwilydd Busnes Eirian Davies ar 01685 877183.

BOREAU COFFI POBLOGAIDD TU HWNT

Ie, dyma'r gwaith dwi'n dwli arno fe – eistedd i lawr ac yfed coffi a siarad Cymraeg beth arall sy eisiau mewn bywyd? Os hoffech chi ymuno â ni dewch i:-

Caffi TJs Trefforest am 11am bore dydd Llun – Colin Williams & co.

Caffi Olion Traed Amgueddfa Aberdâr am 11am dydd Mawrth – Rhian James &co.

Caffi'r Mermaid Aberpennar am 10.30am dydd Mercher gyda John John & co.

Caffi Gwesty'r Etifeddiaeth Porth am 11am dydd Mercher gyda Steffan Webb / Rhodri Ffransis & co.

Caffi'r Miwni Pontypridd am 12 hanner dydd, dydd Iau gyda Eleri Griffiths / Edwin Parry & co.

Caffi'r Bwtsiers Llantrisant am 11am dydd Gwener gyda Huw T Davies / Trystan Griffiths & co.

Oes mae croeso i chi ddod draw os ydych yn dysgu neu'n siarad Cymraeg byddem yn falch iawn o'ch gweld chi

NOSWEITHIAU TAFARN Y RHONDDA

Cafwyd sawl noson dda yn y Coliers, Cymer, Porth yn ddiweddar gydag ambell i ddysgwraig – a oedd yn ymddangos mor synhwyrol â dweud y gwir – yn cael cymaint o hwyl fel ei bod bron a chwympo oddi ar ei chadair wrth chwerthin sut cymaint!

Mae croeso i chi ddod draw am beint bach a sgwrs o 9 o'r gloch ymlaen pob nos Fawrth, nos Fercher neu nos Iau – Steffan / Penri a'r dysgwyr fydd yno ond mae croeso i bawb wrth gwrs.

PARTI PONTY PARTI PONTY HWRE HWRAH AC ATI AC ATI!

Ymddengys yn debygol y bydd Radio Cymru yn ymuno â ni unwaith eto eleni – achos ein bod yn ardal mor groesawgar, gweithgar, a briliant piliant mae'n sïwr – ar ddydd Sadwrn 30ain Mehefin ym mharc Ynysangharad, Pontypridd. Mae Taith Haf S4C hefyd yn sôn am ddod draw felly fe fydd yn benwythnos prysur iawn, iawn. Trefnwch nawr – dim gwyliau i ffwrdd, dim BBQs ysgol, dim ffeiriau haf eraill, dim llithro draw i'r Cnapan neu'r gwyliau dawnsio gwerin ond diwrnod mawreddog i'r brenin yn Parti Ponty gyda'n ffrindiau radio, teledu, Urdd, Meithrin, Cymro, Golwg a Fflach a mwy dwi'n sïwr. Y gobaith yw y bydd Catsgam a Dragonfall yn perfformio yng Nghlwb y Bont ar y nos Wener, gyda chwmnïau drama y Diawled Dawnus, Cwmni Gwen, Pontypridd yn perfformio yn Neuadd Dowlais hefyd ar y nos Wener, a gig fawr gan Yr Urdd ar y noson Sadwrn. Cawn ni weld.

GWIRFODDOLWYR HEN AC IFANC

Mae Eleri Griffiths a Rhodri Wyn Thomas yn gweithio yn galed iawn i gydlynu gwasanaethau degau o wirfoddolwyr i ni a chyrff Cymraeg eraill yn yr ardal a chewch gysylltu â nhw gan ffonio Eleri ar 01443 485337 neu Rhodri am wirfoddolwyr y Milflwydd (16-24oed) ar 01685 877183. Mae sawl corff gwirfoddol wedi datblygu eu defnydd o'r Gymraeg a degau wedi manteisio ar gefnogaeth ariannol Cwmni Acen Cyf o Gaerdydd sydd yn noddi llawer iawn o waith yn yr ardal. Rydym yn gobeithio gwneud mwy gyda gwirfoddolwyr dros 50oed yn ystod y flwyddyn nesaf a hefyd datblygu partneriaeth gyda Age Concern

GWAITH IEUENCTID GYDA'R URDD

Bu'r ffansin Crach yn llwyddiant mawr i Rhodri Ffransis ychydig cyn y Nadolig ac y mae'r clybiau wythnosol yn llwyddo o hyd gan gynnwys y Syber Caff Cymraeg, y cwmnïau drama, clwb Cymraeg Treorci ac uwch adran Rhydywaun. Yn ystod haner tymor bydd CWRS ANIMEIDDIO, CWRS DRAMA, NOSON BOWLIO DEG A THRIPIAU i gyd wedi eu trefnu gan Rhodri mewn cydweithrediad â staff eraill yr Urdd. Y mae hefyd yn gweithio gyda'r ysgolion ar brosiect "Hel Hanesion y Cymoedd", a gwneud gwaith ymchwil ym maes ieuenctid ail iaith. Bydd adroddiad ac ymchwil ieuenctid llynedd (iaith gyntaf) yn cael ei gyhoeddi cyn y Pasg a'i gyflwyno i lawer o gyrff gan gynnwys Cyngor Rhondda Cynon Tâf fel prawf o'r angen am lawer iawn mwy o staff ieuenctid Cymraeg i ddatblygu'r maes. Deallaf fod gan Rhodri ambell i docyn rygbi hefyd ond efallai fod hynny'n gyfrinach.

Y BYD AR BEDWAR AC ADRODDIAD AR FENTRAU IAITH

Welsoch chi'r rhaglen honno? Naddo? Wel, peidiwch â phoeni – cholloch chi ddim byd o gwbl! Ddarllenoch chi'r adroddiad ar waith Mentrau Iaith? Naddo? Wel, peidiwch â phoeni - cholloch chi ddim byd o gwbl! Gwn fod ambell un wedi digalonni yn sgîl y sylwadau negyddol a fu ond – dyfalwch chi eto – peidiwch â phoeni.

Mae gwaith ein holl wirfoddolwyr, y codwyr arian, y pwyllgorwyr, y meddylwyr a'r cefnogwyr i gyd yn ogystal â'r 100+ o staff ar draws 4 swyddfa a hanner dwsin o feysydd gweithredu yn gyfraniad aruthrol o blaid ddyfodol yr iaith yn Rhondda Cynon Tâf a'r cyffiniau. Y mae dyfodol yr iaith cymaint yn sicrach o'i herwydd – felly diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cefnogaeth cyson. Beth arall gallaf ddweud? Peidiwch â digalonni!

Steffan Webb.
Swyddog Datblygu
Menter Iaith

YSGOL GYMRAEG TONYREFAIL

NEWYDDION TYMOR YR HYDREF 2000

Diolchwn i rai o aelodau Clwb Cyfrifiadur yr Ysgol dan arweiniad Mr Emyr John am gasglu a pharatoi'r newyddion - Anton Allison, Aaron Daye, Claire Hortop a Natalie Lewis o Flwyddyn 5.

Ymweliadau Addysgol

Trefnwyd nifer o ymweliadau addysgol a gweithdai i hybu gwaith y dosbarth. Ar Fedi'r l4eg mwynhawyd yn fawr gan holl ddisgyblion yr ysgol ymweliad gan aelod o staff o Ganolfan Adar Ysglyfaethus Dyfed ynghyd â naw o adar ysglyfaethus. Cafodd nifer o'n disgyblion gyfle i gydio mewn tylluan eryr enfawr!

Gadawodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y tu allan i'r ysgol yn gynnar iawn ar Fore Gwener, Hydref l3eg i deithio i Lundain ar gyfer ymweld â'r Dôm yng nghwmni eu hathrawon Mrs Jean Williams a Mr Eirug Lloyd gan ddychwelyd wedi iddi hi dywyllu. `Roedd yn ddiwrnod hir a blinedig, ond mwynhawyd y profiad yn fawr iawn gan bob un, plant ac oedolion.

Trefnwyd i `Gari'r Clown Cerddorol' ymweld â'r ysgol i gynnal gweithdy mathemateg a'r disgyblion hyn ar Dachwedd 20fed, gyda disgyblion Blwyddyn 6 yn mynd i'r Ganolfan Addysg, Porth i weithdy mathemateg arall ar Dachwedd 21 ain. Daeth Cwnstabl Gary Jeffries i drafod camdrin cyffuriau gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar Dachwedd 24ain. Trist gennym glywed ei fod yn y gwasanaeth. Dymunwn yn dda iddo yn ei yrfa yn y dyfodol a diolchwn iddo am ei wasanaeth i'r ysgol yn y gorffennol.

Clybiau

Bu'r Clwb Cyfrifiadur yn cwrdd yn rheolaidd, a cynhaliwyd ymarferion rygbi bob wythnos trwy gydol y tymor.

Ymaelododd tua 80 o ddisgyblion yr Adran Iau â'r Urdd fu'n cwrdd bob pythefnos. Trefnwyd gweithgareddau amrywiol a chyffrous ar eu cyfer, gan orffen y tymor â gwibdaith i'r sinema i weld y ffilm `102 Dalmations'.

Mwynhawyd penwythnos yn llawn hwyl a sbri gan 42 o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog rhwng Medi'r 22ain a'r 24ain, yng nghwmni Mr Lloyd, Miss. Downes, Mr. John a Miss. Huws.

Gwasanaethau

Bu dosbarthiadau Blwyddyn 1 i 6 yn perfformio gwasanaethau arbennig i'w rhieni yn ystod y tymor, a hefyd i'r henoed yn y Ganolfan Ddydd y tu ôl i'r ysgol. Trefnwyd ein Gwasanaeth Cynhaeaf blynyddol ar Hydref 11eg yng Nghapel y Ton, Stryd yr Ysgol yng ngofal Miss. Betsi Griffiths, cyn Bennaeth yr Ysgol. Bu disgyblion o bob dosbarth yn cyfrannu eitemau i'r gwasanaeth hefyd a danfonwyd anrhegion o arian at achosion da, a basgedi o ffrwythau a thuniau i'w dosbarthu i'r henoed gan ein rhieni.

Diolchwn i'r Parchedig Stephen Ambani, Ficer Eglwys Dewi Sant, a'r Parchedig Christopher Bluto, o Gapel Salem, Tonyrefail am gynnal gwasanaethau yn yr ysgol yn ystod y tymor.

Ar Dachwedd l2fed aeth grŵp o ddisgyblion o Flwyddyn 6 i gynrychioli'r ysgol i Wasanaeth Coffa y Ddwy Ryfel Byd ym Mynwent Tonyrefail.

Profiad Gwaith

Diolchwn i un o'n cyn ddisgyblion, Elisabeth Howells sydd yn ddisgybl yng Ngholeg Penybont am ei gwaith yn yr ysgol trwy gydol y tymor. Mi wn y bu'n gymorth mawr i Mrs Gwen Nadimi yn y Feithrinfa. Dymuniadau gorau iddi ar ei phrofiad gwaith nesaf.

Bu tair o ferched Ysgol Gyfun Llanhari ar brofiad gwaith yn yr Adran Fabanod yn ystod yr wythnos yn dechrau ar Hydref 2i1, sef Charlotte Jones fu gyda Mrs Marilyn Morgan a'r plant Derbyn, Rebecca Roberts yn y Feithrinfa a Kimberley Waters o dan arweiniad Mrs Ann Owen ym Mlwyddyn 1. Mae'r dair yn gyn ddisgyblion ein hysgol ni hefyd.

Cysylltiadau â Rhieni

Heblaw am y Gwasanaethau Dosbarth, trefnwyd cyfarfodydd yn ystod mis Medi i hysbysu rhieni o bob dosbarth am waith y flwyddyn, a nosweithiau agored i rieni drafod gwaith eu plant a'r athrawon ar Dachwedd 7fed a'r 8fed.

Mwynhawyd sioeau Nadolig gan y rhieni wedi eu perfformio gan ddisgyblion yr Adran Dan 5, y Babanod a'r Adran Iau yn Eglwys Dewi Sant ar Ragfyr l3eg a chafwyd eitemau gan grwpiau o ddisgyblion hyn yr ysgol ar y telynau a'r offerynnau llinynnol.

Cymdeithas Rieni, Athrawon a Chyfeillion yr ysgol

Trefnwyd rhaglen o weithgareddau ar gyfer y flwyddyn mewn cyfarfod o'r pwyllgor ar ddechrau'r tymor gan gynnwys Disgo Calan Gaeaf i'r disgyblion yn y Clwb Rygbi ar Hydref 20fed, Trip Siopa Nadolig^ Cheltenham ar Dachwedd 18fed, Ffair Nadolig ar Dachwedd 24ain, Brecwast a Siôn Corn ar Fore Sadwrn, Rhagfyr 9fed, Cyfarfod Blynyddol ar Ragfyr l9eg ac adloniant i'r disgyblion ar Ragfyr 21 ain sef Martyn Geraint yn difyrru'r babanod a'r grŵp pop `Trysor' ar gyfer y disgyblion hyn.

Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Miss Luned Huws, athrawes Blwyddyn 2 a Mr Iwan Jones o Bontarddulais ar eu priodas ar Ragfyr laf yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele.

Staff Newydd

Croeso cynnes iawn i Miss. Ceri Hughes o Radyr fydd yn addysgu Blwyddyn 2 tra bod Mrs Jones ar gyfnod o absenoldeb mamolaeth, a chroeso hefyd i un o'n rhieni fel aelod o staff cynorthwyol dros-dro, Mrs Pauline Harnson yn Ile Mrs Rhiannon Pritchard sydd hefyd adref am gyfnod o absenoldeb mamolaeth.

Dymuniadau Gorau

Dymunwn wellhad buan a llwyr i Mrs Lynne Donovan, Nyrs Feithrin a Mrs Liz Fussell, gwraig ein Gofalwr, Alan Fussell yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

PONTYPRIDD

Gohebwyr Lleol:
Delyth Jones a Jayne Rees

Ysgol Pont Siôn Norton
Dathlu 50 Mlwyddiant yr Ysgol
Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer dathlu hanner can mlwyddiant yr ysgol Mis Hydref 2001. Mae llawer o weithgareddau yn cael eu trefnu ac mae rhai cyn ddisgyblion yn awyddus iawn i drefnu aduniad. Os oes diddordeb gan unrhyw gyn ddisgybl neu rhai sydd â chysylltiad â'r ysgol, i gymryd rhan yn y trefniadau yma a wnewch chi gysylltu â'r ysgol yn ystod yr wythnosau nesaf. Rhif ffôn 01443 486838.

Ymweliad
Bu Blwyddyn 4 a 5 yn ymweld â chanolfan Amgylcheddol Hyder yng Nghilfynydd ar Ionawr 25ain i weld y gwaith trin dŵr. Bwriad yr ymweliad oedd astudio'r cylch dŵr a gweld sut mae gwahanu defnyddiau.

Cwis Llyfrau
Mae dau dîm o gyfnod allweddol 2 yn brysur yn ymarfer ar gyfer y cwis llyfrau. Cynhelir y rownd gyntaf ym Mis Chwefror. Pob lwc iddynt.

Pêl-rwyd
Bu tim pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yn nhwrnament yr Urdd a gynhaliwyd yn Abercynon ar Ionawr 19eg.
Canlyniadau:
Coedpenmaen 3 Pont Siôn Norton 0
Evan James 1 Pont Siôn Norton 0

Gwell lwc y tro nesaf. Daliwch ati ferched.

Ysgol Evan James.
Llongyfarchiadau i Delyth Roberts ar ei phriodas ag Emyr Kirkman. Priodwyd y
ddau yn Aberystwyth ar Ragfyr 29ain yng nghanol yr eira!
Cafwyd hwyl a sbri wrth i Ddosbarthiadau 5-12 ymweld a'r Miwni ar gyfer y panto "o cryms nid Barbra bara!"
Aeth Dosbarth 14 a15 i Gilfynydd i'r Ganolfan Amgylcheddol gyda Mr. Gareth Owen.

Ysgol Creigiau

Côr Ysgol Creigiau mewn cyngerdd codi arian i Eisteddfod yr Urdd

Cyngerdd Nadolig
Roedd pedwar perfformiad o'r cyngerdd Nadolig eleni eto er mwyn rhoi cyfle i bob rhiant weld eu plant. Gwaith blinedig! Ond roedd pawb wrth eu boddau - yn berfformwyr a chynulleidfa.

Fe aeth y côr i neuadd Dowlais i gynnal cyngerdd gyda Cantorion Creigiau fel rhan o'r ymgyrch i godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd. Fe wnaeth Lowri Hughes a Sara Thomas chwarae deuawd ar y delyn a chymrodd y gynulleidfa ran trwy ganu carolau.

Canu wrth y Goeden
Bu plant yr Adran lau yn canu carolau wrth goeden Nadolig yr ysgol ar ddiwedd y dydd. Daeth tyrfa dda o rieni i wrando arnom a chasglwyd £60 tuag at Sefydliad y Galon.

Chwaraeon
Pêl -rwyd
Daeth tîm yr ysgol yn drydedd yng nghystadleuaeth yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Abercynon.

Rygbi
Curodd Evan James Ysgol Cilfynydd o 50-25
Ond gêm gyfartal oedd hi yn erbyn Gartholwg 14-14

Pontypridd
Bu farw John Duggan ,Graigwen ar ddechre mis Ionawr ar ôl gwaeledd byr. Estynnwn ein cydymdeimlad â Pauline, Brett, Craig a Ffion a'r wyrion, Dafydd ac Elan.

Croeso nôl
Croeso nôl i Mrs Hurford ar ôl geni merch fach o'r enw Lydia.

Carolau a Chasgenni
Ar y l8ed o Ragfyr, chwaraeodd cerddorfa'r Ysgol garolau i godi arian tuag at Sefydliad y Galon er cof am Christian.

Parti Nadolig
Cafwyd llawer o hwyl wythnos olaf y tymor ym mhartïon yr Adrannau ac yn goron ar bob un fe ddaeth Siôn Corn ag anrhegion i bob plentyn!

Pêl rwyd
Chwaraeodd rhai o ferched BI.5 a BI.6 yn erbyn yr Eglwys Newydd. Sgôr Bl.6 oedd 0-8 a sgôr Bl.5 0-1 .

Criced
Ar Dachwedd yr 28an cafodd tîm criced yr ysgol gyfle i chwarae ac enillon ni 52-26.

Pêl-droed
Daeth Ysgol Pentyrch i'r ysgol i chwarae pêl-droed yn ein herbyn ac enillon nhw o 3 i 1.

Yellow Pages
Mae Fforwm Gwastraff Caerdydd yn cynnal cystadleuaeth i ail gylchu Yellow Pages.Erbyn hyn mae'r ysgol wedi anfon 150 copi.

Cydymdeimlad
Rydym fei ysgol yn cydymdeimlo'n fawr â dau aelod o staff sydd wedi colli rhiant yn ddiweddar, sef, Mrs Jones y Feithrin ar golli ei mam, a Mr Evans y Prifathro ar golli ei dad.

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

CYRRAEDD YR UCHELFANNAU
Llongyfarchiadau i Gareth Knight o Ffynnon Taf chwaraeodd i Dîm Ysgolion Cymru drechodd Dîm Ieuenctid Cymru ar Ionawr 24 yn Y Gnoll, Castell Nedd.

Roedd y llanc 18 oed o Ysgol Gyfun Rhydfelen yn yr ail reng a'i gyd-ddisgybl, Jonathan Edwards o Lanilltud Faerdre, yn flaenasgellwr.

Y sgôr oedd 17 pwynt i 14. "Roedd yn gêm galed ac agos," meddai Gareth. "Enillon ni yn y funud ola.

"Fy nhad, John, yw'r dylanwad mwya arna i. Fe sy wedi rhoi hwb imi'n wastad, yn gwylio pob gêm ac yn dod i bob ymarfer."

Hoff chwaraewr Gareth yw Zinzan Brooke. Mae e newydd orffen ei arholiadau Lefel-A mewn Mathemateg, Ffiseg ac Electroneg a mae'n gobeithio bod yn beiriannydd. Pob lwc iddo yn academaidd ac ar y cae rygbi.

ERGYD SYDYN
Cydymdeimlwn â Sioned Mair a'i theulu ar ôl i'w brawd, Griff, farw mewn damwain car yn Llundain.

Roedd Griff Evans yn 35 oed ac yn rheolwr llwyfan rhaglen Chris Tarrant Who Wants to be a Millionaire? Yn wreiddiol, roedd yn dod o Ddyserth ger Y Rhyl.

Roedd gan Chris Tarrant gymaint o feddwl ohono fel y mynnodd ei fod yn gweithio ar rai o'i sioeau eraill, gan gynnwys Tarrant on TV.

DOD A HANES YN FYW
Llongyfarchiadau i blant Ysgol Gwaelod-y-Garth oedd ar raglen Ffeil yn sôn am dynnu gorsaf heddlu Ffynnon Taf i lawr.

"Roedd yn brofiad ffantastig iddyn nhw am fod yr hanes yn dod yn fyw," meddai'r prifathro, Gerwyn Williams.

"Mae'r adeilad hwn yn bwysig. Nid yn unig mae'n rhan bwysig o fywyd y sir ond mae'n rhan bwysig o fywyd y genedl oherwydd Heddlu Morgannwg oedd yr un cynta yng Nghymru."

MARW BERYL DAVIES
Yn dawel ar Ionawr 10 yn Y Bwthyn, Y Comin, Pontypridd, bu farw Beryl Davies, Tŷ Rhiwddar, Bryncoch, Ffynnon Taf, gwraig Brinley, llys-fam Gareth, Cerys a Gerwyn. Roedd y gwasanaeth a'r traddodiant yn Amlosgfa Glyntaf, Pontypridd, ar Ionawr 17. Cydymdeimlwn â'r teulu.

CROESO BRWD I LINDA
Cafodd Linda Rehfelt groeso brwd yn Ffynnon Taf pan ymwelodd â'r lle ar ôl 35 mlynedd.

Yn 1966 pan oedd yn ei harddegau, ffarweliodd â'i ffrindiau yn Ysgol Uwchradd Fodern Trefforest, gadawodd Alfreds Terrace a theithiodd â'i rhieni i Awstralia.

Ers hynny aeth i brifysgol, derbyniodd radd a mae wedi bod yn gweithio ym maes iechyd cyhoeddus, gan ennill gradd PhD. Ar hyn o bryd mae'n byw yn Perth, Gorllewin Awstralia.

Yng nghanol y dathlu roedd siom. Sylwodd fod ei hen ysgol uwchradd wedi cael ei chwalu a'r pwll nofio a gafodd ei ddifrodi gan lifogydd.

Ond roedd yn falch fod ei hen ysgol gynradd, Ffynnon Taf, yn dal i fod a chafodd gyfle i sgwrsio â hen ffrindiau ysgol.

MARW ANN LITTERICK
Yn dawel yn Y Bwthyn, Y Comin, Pontypridd, ar Ionawr 5 bu farw Ann Patricia Litterick, o Waelod-y-Garth, merch Joyce a'r diweddar Dan, mam Alex a Danielle, mam-gu Cuba, chwaer Christine, Michael, Kathryn, a Stephen.

Roedd y gwasanaeth ar Ionawr 15 yn Eglwys Sant Ffransis, Trelai, Caerdydd, a'r traddodiant yn Amlosgfa Thornhill, Caerdydd. Cydymdeimlwn â'r teulu.

DIGWYDDIADAU
CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Chwefror 4: Y Gweinidog (Cymun); Chwefror 11: Y Gweinidog; Chwefror 18: Y Gweinidog; Chwefror 25: Y Parchedig Gareth Davies.

CYLCH TI A FI, Ffynnon Taf: brynhawn Mawrth yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Janice Edwards, 029 20 843192.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9-3.15, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: dydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GWAELOD-Y-GARTH: Archwiliad Estyn rhwng Chwefror

YN ERBYN YR EWRO
Mae undebwr lleol yn chwarae rhan amlwg mewn ymgyrch yn erbyn yr ewro.

Ar Ionawr 26 roedd Dominic McCaskill o Unsain, Ken Thomas o Undeb y Gweithwyr Rheilffyrdd, a Denzil Davies, Aelod Seneddol Llanelli, mewn cyfarfod lansio yng Nghaerdydd.

"Byddai'r ewro'n drychinebus," meddai Dominic sy'n byw yng Nglan-y-llyn. "Byddai'r effaith ar swyddi, gwasanaethau cymdeithasol a'r diwydiant cynhyrchu yng Nghymru'n andwyol."

MARW BLODWEN SHORT
Yn dawel ar Ionawr 17 yng Nghartre Nyrsio Dyffryn Ffrwd, Nantgarw, bu farw Blodwen Jane Short o Abertridwr, gwraig y diweddar Cyril Vincent.

Roedd y gwasanaeth a'r traddodiant yn Amlosgfa Thornhill, Caerdydd, ar Ionawr 24. Cydymdeimlwn â'r teulu.

Strategaeth Cefn Gwlad Y Sir

Mae'r Strategaeth ar gyfer Cefn Gwlad Rhondda Cynon Taf wedi'i sefydlu ers 1997. Bu'r strategaeth o gymorth ynglŷn â chyfeirio camau gweithredu? Ydyn ni'n nes at wireddu delfryd sylfaenol y strategaeth?

Fe fu llwyddiannau, a dyma ychydig o enghreifftiau:

• Cyflwynodd y naturiaethwr enwog, Iolo Williams, y Cynllun Gweithredu Lleol ar gyfer Bioamrywiaeth yn Rhondda Cynon Taf, sef `Gweithredu dros Natur', fis Hydref. Canlyniad dwy flynedd o gydweithio rhwng naturiaethwyr lleol, mudiadau gwirfoddol, ffermwyr, asiantaethau'r llywodraeth a'r cyngor yw'r cynllun yma. Mae'r gwaith ar gyfer cyflawni'r nodau sydd wedi'u pennu yn mynd rhagddo, ac mae croeso i bawb ymuno â ni.

• Cafodd nifer o deithiau lleol eu crybwyll yn agoriad swyddogol y Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol fis Mehefin. Ymysg y rhain oedd Llwybr y Taf (Taith 8 Caerdydd i Gaergybi), y Llwybr Celtaidd (Taith 4 Llundain i Abergwaun), Taith yr Ucheldir (Taith 47 - Pontypridd i Gastell-nedd) a'r esgair rhwng Pontypridd a'r Porth. Fe gymerodd cannoedd o feicwyr ran yn yr achlysur a bydd miloedd fyth yn defnyddio'r rhwydwaith i fynd i'r gwaith, i'r ysgol, siopau ac ar gyfer teithiau hamdden yn y dyfodol.

Mudiad o'r enw Sustrans sy'n hyrwyddo'r rhwydwaith ymhlith yr awdurdodau lleol a'r mudiadau gwirfoddol, ac maen nhw'n ddigon hyderus y bydd y fenter yma'n mynd o nerth i nerth dros y blynyddoedd i ddod.

• Mae Cylch Amgylchedd Cwm Rhondda (GEAR) wedi datblygu darn o goetir ar gyfer cymuned y Maerdy, gan godi pont dros yr afon i'w gyrchu. Mae amryw fudiadau wrthi yn y Rhondda Fach (gan gynnwys Forest Enterprise, Groundwork, Bell Centre, Arts Factory, GEAR a Mid Fach) yn gweithio ar nifer o brosiectau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r cefn gwlad.

Y Cynghorydd Adrian Hobson gyda'r naturiaethwr Iolo Williams wrth gyflwyno'r cynllun "Gweithredu Dros Natur"

Fodd bynnag, bu ambell i fethiant hefyd, ac mae gwersi i'w dysgu yn sgil y rhain.

• Mae nifer y brithion y gors wedi gostwng ers 1997 achos bod gwaith adeiladu wedi amharu ar rai o'u cynefinoedd nhw. Mae rhai eraill dan fygythiad o hyd. Trwy gymhwyso'r cynllun gweithredu newydd, gallwn ni ofalu na fydd safleoedd o'r fath yn cael eu neilltuo ar gyfer gwaith adeiladu yn y dyfodol ac na fydd yr awdurdod ynglŷn â chynllunio yn caniatáu unrhyw fath o waith a allai peri niwed i'r safleoedd yma.

• Mae incwm y ffermwyr wedi gostwng yn sylweddol, ac mae llai o wartheg ar y porfeydd bellach. O bosibl, bydd cymhorthdal Tir Gofal o gymorth i rai ffermwyr. Efallai y bydd dulliau cynhyrchu naturiol, dulliau marchnata amgen a phrosiectau i ymwelwyr yn helpu eraill.

• Mae rhagor o bobl yn gadael sbwriel heb ganiatâd, er bod llai o adnoddau ar gael i'w rhwystro nhw. Mae llwyddiant y prosiect Afonydd Glân Clean Rivers wedi dangos bod gwirfoddolwyr yn gallu helpu ynglŷn â datrys y broblem yma. Mae'r cyngor yn paratoi strategaeth ynghylch gwastraff ar y cyd a chylchoedd yn y gymuned ar gyfer mynd i'r afael â'r materion perthnasol.

Byddwn ni'n adolygu'r Strategaeth ynglŷn â'r Cefn Gwlad eleni. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â'r strategaeth yma - y delfryd, y polis'iau, neu'r Rhaglen Weithredu Gyfun - rhowch wybod i ni. Dywedwch a yw'r strategaeth yn ddefnyddiol i chi. Ydy o fantais i wybod beth mae pobl eraill yn ei wneud? Os ydych chi'n ymwneud â phrosiect a ddylai gael ei gynnwys yn y. cynllun gweithredu nesaf (2001-4), rhowch wybod i ni.

Mae copïau o'r strategaeth a'r Rhaglen Weithredu Gyfun yn y llyfrgelloedd ac ar wefan Uwch-adran dros Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (www.rhonddacynon-taff.gov.uk/ planning).

SIOP BARA Y PENTREF

Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.

Mrs Janet Evans
01443 202013

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

GWELLHAD BUAN
Mae'n dda gen i fedru adrodd bod Ffion Williams, Hunters Gate, yn gwella'n araf wedi cyfnod reit hir o salwch. Dechreuodd deimlo'n anhwylus nôl ym mis Hydref ac ni fu Ffion i'r ysgol ers hynny. Bu hi yn yr ysbyty Ileol am ychydig cyn y Nadolig ac roedd yn adeg ofidus i'w theulu ond erbyn hyn mae hi'n llawer gwell ac yn gobeithio dechrau nôl yn yr ysgol yn Llanhari cyn bo hir. Dal ati i wella a chryfhau Ffion - mae dy deulu a dy ffrindiau oll yn edrych ymlaen at dy weld o gwmpas Llantrisant unwaith eto.

Hefyd cofiwn am Mererid Morris Meisgyn a drawyd yn sâl yn sydyn iawn cyn y Nadolig. Mae hi'n gwella'n araf yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd.

LLONGYFARCHIADAU
Hoffwn longyfarch Catrin Greaves, Heol y Pistyll ar basio arholiad 'ballet' Gradd 1 yn ddiweddar. Mae'n hoff iawn o ddawnsio ac yn mwynhau gwersi dawnsio 'ballroom' yn ogystal â ballet.

SAFLE'R HEN `HOMEWORLD'
Fel un sy'n byw yn agos iawn at y safle lle fu siop Homeworld gynt, rwyf wedi cymryd diddordeb yn yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yno ers i'r siop gau bron i ddwy flynedd yn ôl. Fel y gwyddoch, mae'n siwr, cafodd yr adeilad ei ddymchwel y llynedd a chyn hir roedd na bob math a sibrydion yn mynd o gwmpas ynglŷn â beth oedd yn mynd i ddigwydd i'r safle.

Fodd bynnag, yr wythnos diwethaf rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 2 uned manwerthu ynghyd â llefydd parcio i dros 400 o geir. Nid ydynt wedi datgelu enwau'r siopau sy'n dod i'r safle ond mae'n debyg y bydd canolfan garddio ynghlwm wrth un ohonynt. Clywais y bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn y misoedd nesaf gyda'r bwriad y bydd y siopau ar agor erbyn y Nadolig nesaf!

CYLCH TI A FI
Mae'r Cylch Ti a Fi lleol yn mynd o nerth i nerth. Maent yn cyfarfod bob prynhawn Llun (adeg tymor ysgol) yng Nghanolfan Cymunedol Penygawsi rhwng 1.30 a 3.00 o'r gloch ac mae cyfle i'r plant bach chwarae a chanu yn Gymraeg ac i'r oedolion sgwrsio. Croeso cynnes i unrhywun, sy'n edrych ar ôl babanod a phlant bach i alw heibio. Y pris yw £ 1 yr wythnos - am fwy o wybodaeth ffoniwch Hazel ar 229093.

NOSON SGWRSIO
Os ydych yn dysgu Cymraeg ac am gael cyfle i sgwrsio yn yr iaith, mae 'na gyfle bob yn ail nos lau yn Llantrisant. Mae Joan McAndrew o Dy'r Castell wedi bod yn dysgu Cymraeg ers tua 4 mlynedd ac yn croesawu bob cyfle i ymarfer, felly mae hi'n gwahodd unrhywun sydd am siarad Cymraeg, i ddod at ei gilydd yn ei chartref bob yn ail nos Iau am tua 8 o'r gloch y nos - mae croeso i ddysgwyr (newydd neu brofiadol) a Chymry sy'n fodlon mynd i fod o gymorth. Bydd y noson nesaf yn cael ei chynnal ar y 9fed o Chwefror ac os hoffech fwy o wybodaeth, ffoniwch Joan ar 237669.

ADRODDIAD AROLWG
Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i longyfarch pawb sydd ynghlwm wrth Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant. Maent wedi derbyn yr Adroddiad ar yr Arolwg a gawsant ym mis Tachwedd ac mae'n un arbennig o dda. Roedd yn adroddiad cadarnhaol a phositif fydd yn sail wych i'w adeiladu arni dros y blynyddoedd nesaf.

PENNAETH NEWYDD
Penodwyd Mrs Susan Preece fel Pennaeth newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant i olynu Mrs Marion Evans. Mae Mrs Preece yn Brifathrawes yn Nhonyrefail ar hyn o bryd ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu i Ysgol Llantrisant ar ddechrau tymor yr haf pan fydd Mrs Evans yn gadael er mwyn cychwyn ar ei swydd newydd gydag ESIS.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Wedi Gwella!
Mae'n dda iawn gweld bod Mrs Peggy Richards, Maes y Nant yn mwynhau iechyd da unwaith eto, a hithau wedi cael cyfnod digon hir o orfod dioddef hen anhwylder cas. Gyda gofal tyner a hiwmor direidus Heddwyn, a'i theulu, does rhyfedd iddi wella cystal!

Croeso'n ôl i Gymru!
Braf cael croesawu teulu newydd o Gymry Cymraeg i'r Creigiau. Ychydig cyn y Nadolig y symudodd Sian a Martin Powell, Rhys a Gareth i 4, Llys Teilo, Creigiau. Daw Sian o Aberystwyth yn enedigol a Martin o Bontarddulais. Mae Rhys wedi dechrau yn ysgol Creigiau ac yn hapus iawn yno, ond mae gan Gareth ychydig bach o amser i aros cyn y caiff ef ymuno â'i frawd mawr. Yn Cheltenham roedd y teulu'n byw cyn symud yn ôl i Gymru.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Marilyn a Simon Shewring, Parc y Fro, ar enedigaeth William George, ychydig cyn y Nadolig, brawd bach newydd i Hannah ac Emily. Bydd hwn yn gerddor o fri, mae'n siwr efo'r pedigri sydd ganddo!

Croeso hefyd i Ffion Jên Jones, 10, Maes y Gollen. Cafodd Ffion hithau ei geni ychydig cyn y Nadolig - chwaer fach i Nia yw hi, a merch i Bethan a Chris Jones.

SWYDDI NEWYDD
Hyderwn fod Mr Hefin Gruffydd a Mrs Afril Davies yn dechrau ymgartrefu yn eu hysgolion newydd, sef Bronllwyn a Heol-y-Celyn, erbyn hyn.

Galw am addunedau

"O dalu biliau i deithio ar drên - erbyn hyn gallwch dderbyn gwybodaeth am wasanaethau o bob math drwy gyfrwng y Gymraeg," medd John Walter Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg. "A nifer cynyddol o sefydliadau a chyfleustodau bellach yn cynnig gwasanaeth ffôn Cymraeg i'r cyhoedd, mae'r Bwrdd Iaith wedi lansio ymgyrch cyhoeddusrwydd newydd, `Mae Dewis ar Gael,' er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg."

Os nad yw'r gwasanaeth Cymraeg yn ddigon da, cofiwch ddweud wrth y corff dan sylw. Os na chewch ateb derbyniol gan y corff, yna rhowch wybod i Bwrdd yr Iaith Gymraeg – 029 2087 8000.

Mae posteri a thaflenni gyda manylion y gwasanaethau ar gael o Adran Farchnata'r Bwrdd ar 029 2087 8000, neu e-bost marchnata@bwrdd-yr-iaith.org.uk.

Llinellau Ffôn ar gyfer ymholiadau'r cyhoedd

Nwy Prydain 0645 555511
Trwyddedu Teledu 0117 9758706
Treth ar Werth 029 20386001
BT 0800 800288
Swyddfa'r Post 0845 7468469
Trenau 0845 6040500
Prawf Gyrru 0870 0100372
Llysoedd - Cyffredinol 0800 212368
Llysoedd – Rheithgorau 0800 590416
Treth/Yswiriant Gwladol 0845 7660830
Cynilion Cenedlaethol 0845 6033410
Asiantaeth Cynnal Plant 0845 7138091
Galw Iechyd Cymru 0845 464748
Pasbort 0870 5210410
DVLA - Gyrwyr 0870 2400009
DVLA - Cerbydau 0870 2400010
Cyswllt â'r Gymraeg 0845 6076070

Llyfr Emynau Newydd
Gwasanaeth Cenedlaethol i ddathlu cyflwyno'r gyfrol
CANEUON FFYDD
i'r genedl
2pm Chwefror 10fed, 2001

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Pat Edmunds

Gwellhad Buan
Dymunwn wellhad buan i Carey Williams, Pen y Waun, sydd wedi bod yn cael triniaeth yn yr ysbyty. Mae'n dda clywed ei fod wedi dod allan.

Capel Tabernacl
Teulu Twm
Mae'r criw ifanc yn parhau i gwrdd am 6.00 o'r gloch bob noson Sul yn yn y Festri. Roeddynt wedi cael amser da iawn ar y wal ddringo yn ddiweddar. Mae nifer ohonynt, yn sicr, â gwaed geifr yn eu gwythiennau!

Tuag at Uno
Mae'r Capel yn ystyried yn ddwys eu hymateb i'r argymhelliad i uno enwadau'r capeli Cymraeg.

Cornel y Plant

Mae llawer o eiriau yn cuddio yn y grid. Pethau a welwch mewn cegin sydd yma. Ceisiwch ddod o hyd i o leiaf deuddeg gair (er bod mwy nag ugain yma).
Mae'r geiriau yn mynd i fyny ac i lawr, ar letraws, o'r

Dyma bedwar cwestiwn i'w hateb hefyd:
1. Faint o wyau sydd yn y gegin?
2. Sawl llwy sydd yma: un, dwy neu dair?
3. Sawl cwpan sydd yma: un, dau neu dri?
4. Heblaw am yr wyau, beth arall sydd i'w fwyta neu i'w yfed yn y gegin?

c	w	p	a	n	o	p	i	n	t	y	c
w	y	a	dd	r	w	b	i	a	w	y	w
p	t	ll	o	w	s	e	t	b	i	e	h
w	i	w	r	ff	e	n	e	s	t	r	o
r	r	y	o	ll	ff	o	r	o	c	s	n
dd	o	r	h	t	th	l	w	s	u	ch	i
u	c	b	p	r	ff	l	i	s	l	c	a
s	i	s	a	c	y	ll	e	ll	t	o	i
o	i	d	a	r	i	a	d	a	c	f	ll
y	a	b	r	n	a	p	w	c	l	ng	a
w	g	u	t	n	t	r	w	g	o	i	s
ll	e	g	w	e	rh	i	ff	o	c	s	p

Rhwng Gwŷr Pen-tyrch

Dyma flas ar yr hyn sydd i'w gael mewn llyfryn hynod o ddiddorol gan R.Elwyn Hughes a gyhoeddwyd cyn y Nadolig. Erbyn hyn mae copïau yn brin – mynnwch eich copi i ddarllen am fywyd Cymraeg yr ardal.

"Roedd 1861 yn flwyddyn gythryblus i drigolion Pen-tyrch plwyf a phentref rhwng Caerdydd, Pontypridd a Llantrisant. Ymestynnai'r plwyf, yr adeg honno, o Gastell Mynach a Rhydlafar yn y de i'r ardal sy'n cyfateb heddiw i Waelod-y-Garth yn y gogledd. Cynhwysai'r plwyf yn 1861 ryw 1590 o drigolion nifer sylweddol ohonynt yn ymwneud â gwaith amaethyddol ond y rhan fwyaf yn gyflogedig yn y gweithfeydd glo a haearn cyfagos. Hyd yn oed yn nechrau'r ugeinfed ganrif Cymraeg oedd iaith y plwyf "the nearest thoroughly Welsh-speaking parish to Cardiff" meddai John Hobson Mathews yn ei Cardiff Records yn 1905, a hyn ar adeg, a dyfynnu'r un awdur, pan oedd "specimens of the aboriginal Welsh-speaking Cardiffian" yn brin iawn.

Lleolwyd prif weithgareddau cymdeithasol y plwyf yn y capeli a'r eglwys ac, i raddau llai, ar gyfer y dynion yn unig, yng nghyfrinfeydd yr Odyddion a'r Iforiaid - y cymdeithasau `cyfeillgar' dyngarol a ymledodd ar draws de Cymru yn hanner cyntaf y ganrif. Bu cyfrinfeydd gweithgar ym Mhen-tyrch ei hunan "Castell Pentyrch" (rhif 1349) oedd y gangen o'r Odyddion a weithredai yno yn y 1830au) yn ogystal ag yng Ngwaelod-y-Garth, yn Nhongwynlais ac yn Llantrisant gerllaw. Yn 1842 cafwyd gan Thomas Thomas o Ben-tyrch lythyr yn Yr Haul, cylchgrawn . Eglwysig, yn cyfiawnhau bodolaeth yr Odyddion ac yn argymell gweinidogion ac offeiriaid i'w cefnogi.

Bu dirwest hefyd yn bwnc trafod yn y cyfnod dan sylw ac yn enwedig yn y rhan ogleddol o'r plwyf - y rhan ddiwydiannol a gyfatebai i'r Gwaelod-y-Garth modern - ardal lle bu meddwdod yn rhemp, weithiau gyda chanlyniadau alaethus."

Rhwng Gwŷr Pen-tyrch

Digwyddiadau mewn plwyf yn ne Morgannwg yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg
gan R. Elwyn Hughes
Pris £4.50 y copi (£5 trwy'r post) oddi wrth yr awdur
(Bryn Catwg, Pentyrch, Caerdydd CF15 9QF.)